# Arweiniad atodol ar gyfer arolygu diogelu mewn ysgolion ac UCDau

Medi 2024

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Rydym hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw'r diben?**

Mae hwn yn rhoi arweiniad pellach i arolygwyr ei ddefnyddio er gwybodaeth yn ystod arolygiad ochr yn ochr ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu, i gefnogi trywyddau ymholi penodol.

**Ar gyfer pwy y mae wedi'i fwriadu?**

Ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, colegau ôl-16, colegau arbenigol, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau meithrin nas-cynhelir

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

Medi 2024

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Arweiniad atodol .......... 1**

**Cyflwyniad .......... 2**

**Diffiniad o ddiogelu .......... 3**

**Ein trefniadau arolygu .......... 5**

**Arweiniad ar gyfer arolygwyr wrth werthuso effeithiolrwydd diogelu .......... 9**

**Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), gwiriadau ailadroddus a hygludedd .......... 14**

**Gweithgarwch rheoledig fel y'i diffinnir gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 .......... 18**

**Delio â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill Cylchlythyr 009/2014 Llywodraeth Cymru .......... 19**

**Gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar achosion o gamymddwyn ac anghymwystra yn y gweithlu addysg yng Nghymru. Cylchlythyr 168/2015 Llywodraeth Cymru .......... 20**

**Atal radicaleiddio ac eithafiaeth .......... 21**

**Trais yn erbyn merched, camdrin domestig a thrais rywiol .......... 21**

**Diogeledd .......... 22**

**Diogelu gwybodaeth ac arolygiadau .......... 23**

**Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd .......... 24**

**Atal corfforol .......... 25**

**Atodiad 1: Arolygu diogelu mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir .......... 31**

**Arweiniad ar gyfer arolygwyr wrth farnu effeithiolrwydd diogelu .......... 33**

**Atodiad 2: Arolygu diogelu mewn darpariaethau ôl-16 (gan gynnwys colegau arbenigol) .......... 35**

**Atodiad 3: Arolygu yn y sector cyfiawnder .......... 46**

**Gyda phwy i gysylltu .......... 50**

## Arweiniad atodol

Mae ein harweiniad arolygu yn esbonio Beth rydym ni'n ei arolygu a Sut rydym ni'n arolygu. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector rydym yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion gyda chymeriad crefyddol).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o'n trefniadau arolygu hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran gwerthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

## Cyflwyniad

Nod yr arweiniad atodol hwn yw cynorthwyo arolygwyr yn ôl yr angen i werthuso trefniadau diogelu ysgolion wrth gynnal arolygiadau. At ddiben y ddogfen hon, bydd y term 'ysgol' yn cynnwys UCDau.

**Ym mhob agwedd ar ein gwaith, rhaid rhoi anghenion, diddordebau a lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus uwchlaw anghenion a diddordebau pawb arall. Felly, rhaid rhoi blaenoriaeth i'n Polisi Diogelu a'r arweiniad sydd wedi'i gynnwys ynddo dros bob polisi a chyngor arall. Trwy'r arweiniad hwn a thrwy hyfforddiant priodol, byddwn yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff ynghylch achosion posibl o gam-drin, esgeulustod, ac arfer broffesiynol anniogel o fewn lleoliadau rydym yn eu harolygu ac o fewn lleoliadau eraill rydym yn ymweld â nhw.**

Dylid ei ddefnyddio er gwybodaeth yn ystod arolygiad ochr yn ochr â'n Polisi a'n Gweithdrefn ar gyfer Diogelu sydd i'w cael ar wefan Estyn:

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Estyn%20Safeguarding%20Policy%202016%20Cy.pdf

Nid yw'r arweiniad hwn yn trafod y modd y dylai arolygwyr ddelio â honiadau am ddiogelu a dderbynnir yn ystod arolygiad. Rhaid i arolygwyr fod yn gyfarwydd â'n Polisi a'n Gweithdrefnau ar gyfer Diogelu sy'n cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Dylai pob arolygydd wybod beth i'w wneud pe byddent yn derbyn honiadau am ddiogelu ac mae'r camau sy'n ofynnol wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon.

**Mae angen i arolygwyr ysgolion annibynnol ystyried Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 hefyd.**

### Rhagor o gyngor ac arweiniad

Dylai arolygwyr sydd angen cyngor neu arweiniad edrych i ddechrau ar y cofnod ymholiadau 'parhaus' a gynhelir ar Sharepoint, a'r adran Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan. Y rheswm am hyn yw y gellid bod wedi mynd i'r afael â'u hymholiad eisoes mewn lleoliad arall.

Gellir gweld atebion i gwestiynau cyffredin am werthuso trefniadau darparwr ar gyfer diogelu yn:

http://estynintranet/policy/Safeguarding/Safeguarding%20Documents/Forms/FAQs%20and%20Queries.aspx

Pan fydd arweiniad presennol yn aneglur neu nid yw ar gael, dylai arolygwyr gysylltu â'r Arweinydd Sector, aelod o'r tîm arweioniol diogelu neu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol ynglŷn ag unrhyw ymholiadau.

Mewn achos o bryderon neu ymholiadau'n gysylltiedig â derbyn honiadau ynghylch diogelu, mae'r rhifau ffôn canlynol ar gael:

**Ein prif swyddfa (yn ystod oriau swyddfa): 02920 446446**

## Diffiniad o ddiogelu

Mae gan bob ysgol, yn cynnwys ysgolion annibynnol, ddyletswyddau statudol i weithredu mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae angen i'r trefniadau sydd gan ysgolion ar waith sicrhau:

- y rhoddir mesurau rhesymol ar waith i leihau risg niwed i les plant
- y cymerir camau priodol i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â lles plentyn neu blant, gan weithio i bolisïau a gweithdrefnau lleol cytûn mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill

Mae **diogelu a hyrwyddo lles plant** yn ymwneud â'r canlynol:

- amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- atal nam ar eu hiechyd neu'u datblygiad
- sicrhau eu bod yn cael gofal diogel ac effeithiol

A hynny er mwyn galluogi plant i gael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd.

### Diogelu oedolion bregus

O ran diogelu oedolion bregus, eto, nid oes diffiniad statudol. Er nad yw 'Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar waith yng Nghymru' yn cynnwys unrhyw ddiffiniad o ddiogelu oedolion bregus, mae'n diffinio cysyniadau 'oedolyn bregus' a 'niwed sylweddol' ar wahân.

Mae'r diffiniad o 'Oedolyn Bregus' wedi'i amlinellu yn adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

(1) "Oedolyn sydd mewn perygl", at ddibenion y Rhan hon, yw oedolyn:

(a) sy'n profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu mewn perygl o'u profi
(b) sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio)
(c) nad yw'n gallu amddiffyn ei hun yn erbyn camdriniaeth neu esgeulustod, neu'r perygl ohonynt, o ganlyniad i'r anghenion hynny

Yn ei hanfod, mae gan bob oedolyn bregus hawl i gael ei amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod, yr hawl i gael gofal priodol a chael cymorth os yw wedi cael ei gam-drin.

**Beth yw plentyn?**

**Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007), 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' yn esbonio bod plentyn yn unrhyw un nad yw wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed eto. Felly, mae 'plant' yn golygu 'plant a phobl ifanc' trwy gydol y ddogfen honno. Nid yw'r ffaith fod plentyn wedi troi'n un deg chwech mlwydd oed yn byw yn annibynnol neu mewn Addysg Bellach, neu'n aelod o'r lluoedd arfog, neu mewn ysbyty, neu mewn carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc, yn newid ei statws neu'i hawl i wasanaethau neu amddiffyniad o dan Ddeddf Plant 1989.**

Mae pawb sy'n gweithio mewn addysg yn rhannu amcan i helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Wrth arolygu trefniadau diogelu darparwr, dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol yw'r ysgol yn y canlynol;

- creu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc
- nodi ble mae pryderon ynghylch lles plant a chymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain, lle bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant trwy'r cwricwlwm

I gyflawni'r amcan hwn, mae angen cael systemau a gynlluniwyd i:

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc
- hyrwyddo arfer ddiogel a herio arfer wael ac anniogel o fewn y ddarpariaeth
- nodi achosion lle mae achos i bryderu am les plentyn yn deillio o'r cartref, y gymuned neu'r ysgol, a dechrau neu gymryd camau priodol i'w gadw/chadw'n ddiogel
- cyfrannu at weithio mewn partneriaeth yn effeithiol rhwng pawb sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc

Ym mhob achos, mae'r fframwaith arolygu yn edrych y tu hwnt i restr dicio ynghylch cydymffurfio, ac yn hytrach yn gwerthuso dull darparwr o ddiogelu, a'r graddau y mae hyn yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant o ddiogelwch a lles yng nghymuned yr ysgol.

Mae **amddiffyn plant** yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgarwch a gynhelir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso.

Mae **diogelu** yn cynnwys mwy na'r cyfraniad a wneir at amddiffyn plant mewn perthynas â phlant unigol. Mae hefyd yn cwmpasu materion fel:

- recriwtio diogel, goruchwylio, hyfforddi a rheoli staff
- sut mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion, yn cynnwys darpariaeth tynnu'n ôl a defnyddio ataliaeth
- pa mor dda y mae'r darparwr yn monitro presenoldeb disgyblion ac ymgysylltiad â'r ddarpariaeth, sy'n gallu nodi'n gyflym unrhyw gyflyrau meddygol di-esboniad, absenoldebau anarferol, a diflaniadau
- iechyd a diogelwch a lles disgyblion, ar y safle ac oddi ar y safle

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ymddygiadau sy’n emosiynol niweidiol neu’n anniogel, er enghraifft meithrin perthynas amhriodol ar-lein, aflonyddwch, gwahaniaethu, bwlio ac eithafiaeth
- bwlio, gan gynnwys seiberfwlio
- gweithdrefnau cadw cofnodion y darparwr
- trefniadau ar gyfer bodloni anghenion plant â chyflyrau meddygol
- cymorth cyntaf a rheoli meddyginiaethau
- addysg cydberthynas a rhywioldeb
- hyrwyddo perthnasoedd iach
- camfanteisio’n rhywiol ar blant
- priodas dan orfod
- atal radicaleiddio a chamfanteisio
- masnachu pobl
- cyfeirio dioddefwyr camdriniaeth at gymorth a chefnogaeth briodol
- dyletswydd adrodd gorfodol ar gyfer anffurfio organau cenhedlu benywod
- camddefnyddio cyffuriau a sylweddau
- diogelwch ar-lein
- Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) sy’n berthnasol i bobl ifanc un deg chwech oed ac yn hŷn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gofynion statudol penodol ynglŷn â llawer o’r materion hyn. Gall fod materion diogelu eraill hefyd sy’n benodol i’r ardal neu’r boblogaeth leol.

Pan fydd yna ofynion statudol, dylai ysgolion fod wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith eisoes sy’n bodloni’r rheiny ac yn cydymffurfio ag unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, dylai polisïau a gweithdrefnau ddangos tystiolaeth o drefniadau am faterion y mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arweiniad arnynt, sy’n unol â’r arweiniad hwnnw neu’n cyflawni’r un effaith.

## Ein trefniadau arolygu

Wrth werthuso trefniadau diogelu, mae'n rhaid i arolygwyr wneud mwy na dim ond sicrhau bod dogfennau polisi yn bodoli, a bod staff yn gwybod am y manylion ynddynt. Rhaid iddynt asesu pa mor dda y mae'r darparwr yn creu diwylliant diogelu yn ei holl waith.  Yn ogystal â hyn, rhaid iddynt werthuso pa mor dda y deellir polisïau a gweithdrefnau, a sicrhau eu hunain fod staff, arweinwyr a llywodraethwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelu yn briodol.

DylaiDylai arolygwyr ystyried agwedd yr Ysgol tuag at ddiogelu a’c I ba raddau y mae hyn yn hyrwyddo a chefnogi diwylliant o ddiogelwch a lles o fewn cymuned yr ysgol, pan mae disgyblion ar ysafle neu oddiar y safle. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth yr ysgol o effeithiolrwydd ei threfniadau diogelu ei hun.

Dyali’r AC ddarparu gwybodaeth i'r tîm am symudiadau disgyblion ( i mewn ac allan o’r ysgol) rhwng Bl 10 a Bl 11 am y 3 mlynedd diwethaf. Dylech ofyn I'r enwebai i ddarparu gwybodaeth am y disgyblion na wnaeth ddychwelyd o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 – y rhesymau am hyn a pha ddarpariaeth y gwaethont ei dderbyn yn eu

blwyddyn olaf o addysg statudol.

Dylai’r tîm hefyd ystyried unrhyw ddata arall yr hoffai;r ysgol ei rannu, er enghraifft cyfeiriadu ymddygiad. Fodd bynnag, dylai arolygwyr ffocysu ar sut mae’r darparwr yndefnyddio’r wybodaeth yma i fonitro a chefnogi lles a chynnydd disgyblion.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae staff a llywodraethwyr yn deall a defnyddio prosesau diogelu yr ygsol, er enghraifft, yn y meysydd canlynol:

- Cofnodi a rheoli digwyddiadau o fwlio
- Amddiffyn plant
- Recriwtio diogel
- Cymorth cyntaf
- Lles disgyblion gyda chyflyrau meddygol
- Lles disgyblion mewn lleoliadau galwedigaethol
- Diogelwch ar deithiau addysgol
- Diogelwch ysgol
- Rheolaeth disgylaethol, gan gynnwys ymyrraeth corfforol
- Rheolaeth trafnidiaeth gan gynnwys traffig ar safle’r ysgol
- Trefniadau amddiffyn rhyddid ar gyfer pobl ifac dros 16 oed

Dylai arolygwyr asesu’n ofalus nid yn unig a yw;r dogfennau hyn yn bodol, ond eu hansawdd a pha mor effeithiol yw eu defnydd. Dylai’r polisiau hyn fod yn berthnasol am wasanaethau tu hwnt i;r diwrnod ysgol arferol.

**Yn ychwanegol, bydd y meysydd arolygu canlynol yn cynnwys agweddau o ddiogelu:**

| **Maes Arolygu 1: Addysgu a Dysgu** |
|---|

Pa mor dda mae disgyblion:

- yn datblygu eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth?
- yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu?

Dylai arolygwyr werthuso sut mae'r cwricwlwm

- yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion neu’n meithrin agweddau cadarnhaol a pharchus at amrywiaeth. (ACRh)
- yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol hunaniaethau, barn a gwerthoedd, amrywiaeth perthnasoedd, rhywedd, rhywioldeb gan gynnwys bywydau LHDTC+ ac archwilio themâu tegwch rhywedd, hawliau ac eiriolaeth (ACRh)
- yn cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol disgyblion, gan gynnwys eu dealltwriaeth o nodweddion perthnasoedd iach (ACRh)
- yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i ddewis ffyrdd iach o fyw a deall effaith y dewisiadau hyn (gan gynnwys sut i gadw’n ddiogel ar-lein)

**Maes Arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

Pa mor effeithiol y mae'r ysgol/UCD yn sicrhau bod pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o ganlyniadau niweidiol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi'n effeithio arnynt, sydd ag ADY neu rwystrau eraill rhag cynnydd:

- yn ddiogel?
- yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd?
- yn cael eu parchu a'u trin yn deg?
- yn cael yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad?

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:

- yn creu a chynnal diwylliant diogelu, gan gynnwys dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant fel bod disgyblion yn ddiogel, yn cael eu parchu a'u trin yn deg, yn rhydd o fwlio ac aflonyddu ac yn rhydd o gamdriniaeth gorfforol, emosiynol a geiriol
- yn sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, er enghraifft trwy: hyrwyddo a monitro presenoldeb gan gynnwys grwpiau penodol, herio absenoliaeth barhaus neu weithio mewn partneriaeth, er enghraifft gyda gwasanaethau lles addysg, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu ac asiantaethau eraill
- yn cydlynu cymorth addas i ddisgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol pan fo'n briodol
- yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol, ac yn cofnodi, adrodd ac ymateb yn gywir i bob math o fwlio ac aflonyddu

**Maes Arolygu 3: Arwain a Gwella**

Pa mor effeithiol mae arweinwyr:

- yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a **lles** pob disgybl?
- yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn arfogi’r holl staff i gyflawni eu rolau?

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae arweinwyr

- yn datblygu **diwylliant**, **ethos cynhwysol** a chyfeiriad strategol sy'n canolbwyntio'n briodol ar wella dysgu a **lles** disgyblion
- yn gosod a chyfleu **disgwyliadau uchel i staff**, disgyblion ac wedi sefydlu hanes o wneud a chynnal gwelliannau ac i ba raddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a **lles** disgyblion
- yn cynllunio a darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a **lles** disgyblion

Dylai arweinwyr a rheolwyr fod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau statudol o ran diogelu a'r camau y maent yn eu cymryd i hyrwyddo diwylliant diogelu cryf yn eu darpariaeth a sut maent yn datblygu arfer da y tu hwnt i'r lleiafswm statudol.

Mae corff llywodraethol ysgol a gynhelir, Coleg AB a pherchennog ysgol annibynnol yn atebol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwiriadau recriwtio diogel yn cael eu cynnal yn unol â gofynion statudol.

Os nad oes gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles dysgwyr ac os nad yw'n cymryd camau digonol i sicrhau y cedwir at y rhain, bydd hyn yn dylanwadu ar y gwerthusiad a wneir ynghylch ansawdd yr arwain a'r gwella.

Ers 2019, mae'r corff llywodraethol wedi cael cyfrifoldebau penodol ynglŷn â pholisi a gweithdrefnau gwrthfwlio'r ysgol[1]. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff llywodraethol ysgolion fonitro'r canlynol mewn perthynas â bwlio:

- bod ysgolion yn cynnal trosolwg o achosion o fwlio a gofnodwyd yn eu lleoliad i weld pa mor hir mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i achosion gael eu datrys
- y cyfraddau mynychder
- p'un a yw dysgwyr a adroddodd am achosion o fwlio yn credu y cawsant ganlyniad boddhaol
- p'un a oes yna unrhyw dueddiadau yn dod i'r amlwg neu grwpiau y gwahaniaethir yn eu herbyn
- p'un a oes yna achosion ar-lein sy'n awgrymu bod angen gwneud gwaith gyda'r dysgwyr, y rhieni / gofalwyr a'r staff i atal mathau newydd o fwlio
- cyfraddau absenoliaeth
- bod y data a gesglir yn rheolaidd ar achosion a adroddwyd yn dangos cynnydd tuag at yr amcanion cydraddoldeb.

Dylai arolygwyr asesu'n ofalus pa mor dda y mae uwch reolwyr a llywodraethwyr yn monitro a gwerthuso pob agwedd ar ddiogelu, ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r ysgol. Os nad oes gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles disgyblion, ac nid yw'n cymryd camau digonol i sicrhau cydymffurfio â'r rhain, bydd hyn yn dylanwadu ar y gwerthusiad sy'n cael ei wneud am ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol.

## Addysg gyda llety neu ddarpariaeth breswyl

Pan fydd gan sefydliad addysg ddarpariaeth gyda llety neu os yw'n gysylltiedig â lleoliad preswyl, rhaid i arolygwyr gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfrannu at anghenion lletywyr neu breswylwyr mewn perthynas â'u diogelwch.

Pan fydd gan sefydliad addysg ddarpariaeth gyda llety neu os yw'n gysylltiedig â lleoliad preswyl, dylai'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn gynnwys gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.

[1] 11.17 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-11/rights-respect-equality-statutory-guidance-for-governing-bodies-of-maintained-schools.pdf

# Arweiniad ar gyfer arolygwyr wrth werthuso effeithiolrwydd diogelu

## Tystiolaeth cyn-arolygiad

Bydd arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth. Cyn yr arolygiad, mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn ystyried:

- gwerthusiad diweddaraf yr ysgol o'i gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant
- adroddiad yr awdurdod lleol ar yr ysgol
- yr adroddiad arolygu blaenorol
- data ar agweddau ar ymddygiad fel gwaharddiadau
- polisïau'r ysgol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles, yn cynnwys y polisi amddiffyn plant
- gwybodaeth ysgrifenedig gan rieni neu bartneriaid eraill
- unrhyw gŵynion y gallai Estyn fod wedi'u derbyn
- ymatebion i'r holiaduron i ddisgyblion, yn arbennig yr ymatebion i gwestiynau ynglŷn â theimlo'n ddiogel, bwlio, gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni, cadw'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd
- ymatebion i'r holiaduron i rieni, yn enwedig y cwestiynau ynghylch anogaeth i fod yn iach a gwneud ymarfer corff, bod yn ddiogel a chael y cymorth ychwanegol ar gyfer unrhyw anghenion penodol
- ymatebion i holiaduron staff a llywodraethwyr, yn enwedig y cwestiynau sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at weithdrefnau diogelu'r ysgol, rheoli ymddygiad disgyblion a delio â bwlio ac aflonyddwch.

Mae'n bwysig nad ydym yn rhannu sylwadau unigol o unrhyw holiadur â'r ysgol. Mae'r sylwadau o'r holiaduron i ddysgwyr a rhieni yn yr ardal dogfennau arolygu a dylid eu cadw'n gyfrinachol i'r tîm. Caiff sylwadau o'r holiaduron staff a llywodraethwyr eu cadw'n ddiogel yn ardal yr Arolygydd Cofnodol, a dylent aros yn gyfrinachol i'r Arolygydd Cofnodol.

Dylai arolygwyr roi ystyriaeth benodol i gyd-destun yr ysgol, yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol, pan fydd ar gael:

- nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant
- nifer y ffoaduriaid neu'r ceiswyr lloches
- nifer y plant y gofelir amdanynt
- gwaharddiadau a throsglwyddo disgyblion.

Pan fydd tystiolaeth cyn yr arolygiad yn nodi materion posibl o ran diogelu neu arfer wael o ran rheoli gan y darparwr, dylai arolygwyr ofyn am arweiniad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol eu sector a'r tîm diogelu. Pan ystyrir bod angen adrodd ar fater, rhaid cymhwyso ein polisi diogelu.

### Craffu ymlaen llaw ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Staff (DBS)

Mae'r holl ddogfennau a uwchlwythwyd yn cael eu storio'n ddiogel yn SharePoint yr arolygiaeth, gyda mynediad cyfyngedig a mesurau dilysu cryf. Mae'r VIR yn derbyn profion diogelwch rheolaidd, ac mae telerau ac amodau sefydledig ar gyfer arolygwyr. Wrth gasglu a defnyddio data personol a gawn gan ddarparwyr, mae Estyn yn gweithredu fel rheolydd data personol annibynnol. Mae'r sail gyfreithlon ar

gyfer prosesu data wedi'i hamlinellu yn Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU, sy'n ymwneud â thasgau cyhoeddus fel rheoleiddiwr. Mae'n bwysig nodi nad yw'r holl wybodaeth DBS y gofynnir amdani yn ddata sensitif a'i bod yn cael ei defnyddio at ddibenion arolygu yn unig, yn unol â chanllawiau GDPR ar ddata troseddau troseddol. Mae hysbysiad preifatrwydd Estyn yn rhoi manylion ychwanegol am gasglu data, defnyddio, hawliau unigol, a gwybodaeth gyswllt ar gyfer ymholiadau neu gwynion.

## Cynllunio'r arolygiad

Dylai cyfrifoldeb am arolygu diogelu gael ei rannu gan bob aelod o'r tîm, ond yr arolygydd sydd â'r cyfrifoldeb, yn y pen draw. Gall yr Arolygydd Cofnodol ddyrannu tasgau penodol i unrhyw aelod o'r tîm, yn cynnwys yr arolygydd cymheiriaid a'r arolygydd lleyg. Gallai gwahanol arolygwyr fod yn gyfrifol am wahanol agweddau ar ddiogelu a hyrwyddo lles gan eu bod yn digwydd mewn mwy nag un maes arolygu. Fel ym mhob arolygiad, mae arolygydd cofnodol yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal yr arolygiad ac mae angen iddo/iddi fonitro gwaith yr arolygydd/arolygwyr sy'n arwain ar faterion yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles dysgwyr, yn enwedig materion yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Bydd pob ysgol yn cwblhau hunanwerthusiad cynhwysfawr mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant cyn yr arolygiad. Bydd hyn yn darparu trosolwg defnyddiol o'r materion y mae angen eu hystyried wrth werthuso polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu, gan gynnwys amddiffyn plant. Mae darparwyr yn rhydd i ddefnyddio unrhyw fodel diogelu ac amddiffyn plant addas y maent yn dymuno. Gellir gweld templed hunanwerthuso defnyddiol ar ein gwefan ac yn nogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2022).

Pan fydd mater diogelu wedi cael ei godi am yr ysgol / UCD cyn arolygiad, bydd swyddog diogelu wedi amlygu'r darparwr gan ddefnyddio rhybudd ynghylch diogelu. Bydd y CydAr yn rhoi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol am hyn a bydd yn gofyn iddo/iddi gysylltu â'r swyddog diogelu i gael rhagor o wybodaeth a chyngor. Gallai hyn gynnwys cwestiynau posibl a meysydd pellach i'w gwerthuso, sy'n gysylltiedig â'r materion diogelu a godwyd yn y rhybudd. Dylai Arolygwyr Cofnodol gynnwys sylw byr yn adran y FfMT adrodd ar ddiogelu yn rhoi manylion am y camau a gymerwyd yn ystod yr arolygiad sy'n gysylltiedig â'r rhybudd ynghylch diogelu.

Bydd angen i'r arolygydd cofnodol ystyried pa mor effeithiol y mae'r ysgol wedi gwerthuso eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles. Bydd hyn yn helpu i bennu i ba raddau y mae polisïau a gweithdrefnau diogelu yn cael eu rhoi ar waith yn briodol. Os nad yw'r ysgol yn lanlwytho gwerthusiad, dylai hyn fod yn destun pryder ynglŷn â pha mor drylwyr y mae'r ysgol yn gwerthuso'i gweithdrefnau ei hun, a pha mor dda y mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r ysgol. Yn sgil y gwerthusiad hwn, bydd angen i'r arolygydd cofnodol neilltuo amser i gasglu digon o dystiolaeth i gefnogi barnau'r tîm. Gallent gynnwys cwestiynau sy'n benodol i ddiogelu a hyrwyddo lles mewn cyfarfodydd gyda'r canlynol:

- y pennaeth neu'r prifathro / athro sydd â gofal
- cynrychiolydd/cynrychiolwyr o'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli
- staff
- rhieni
- disgyblion

Gallai arolygwyr drefnu cyfarfod â'r unigolyn dynodedig sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant hefyd, os nad y pennaeth / prifathro / athro sydd â gofal ydyw.

## Gweithgarwch arolygu

Wrth arolygu ysgolion mewn perthynas â diogelu, bydd arolygwyr yn gwerthuso'r canlynol:

- p'un a oes gan yr ysgol hunanwerthusiad cyfoes sy'n ystyried effeithiolrwydd ei dyletswyddau diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys gweithgarwch diogelwch ar-lein, a pha mor dda y mae'n amlinellu cryfderau a meysydd i'w gwella
- pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithredu a monitro polisïau a gweithdrefnau er mwyn gwella'r modd y mae'n diogelu a hyrwyddo lles plant yn unol ag arweiniad statudol Llywodraeth Cymru a welir yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2022). keeping-learners-safe-the-role-of-local-authorities-governing-bodies-and-proprietors-of-independent-schools-under-the-education-act.pdf
- p'un a yw'r ysgol yn adrodd yn rheolaidd i uwch reolwyr a llywodraethwyr, a pha mor dda y mae'n defnyddio'i data a'i harfarniadau o ddiogelu am achosion yn yr ysgol, gan gynnwys achosion, ac agweddau ar, ddiogelwch ar-lein
- p'un a yw pob un o staff yr ysgol yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i amddiffyn disgyblion a bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn a diogelu plant, gan gynnwys dyletswyddau 'Atal'
- p'un a yw'r holl gofnodion sy'n gysylltiedig â diogelu yn gyfoes, gan gynnwys achosion o fwlio honedig, ymyrraeth gorfforol, cyfeiriadau amddiffyn plant, recriwtio diogel a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a hyfforddiant ar ddiogelu
- p'un a oes dulliau cyson o reoli ac adrodd am achosion yn ymwneud â diogelu a materion rheoli ymddygiad yn yr ysgol, sy'n cael eu cefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau clir, ac sy'n cynnwys rheoli achosion yn gysylltiedig â'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol
- p'un a oes trefniadau addas i weithredu lle mae patrwm presenoldeb unrhyw ddisgybl yn destun pryder, a ph'un a yw'r ysgol yn monitro absenoldebau disgyblion ar gyfer y diwrnod ysgol cyfan neu ran ohono, ac yn gweithredu yn unol â hyn
- pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ymddygiadau sy'n emosiynol niweidiol neu'n anniogel, er enghraifft meithrin perthynas amhriodol ar-lein, aflonyddwch, gwahaniaethu, bwlio yn gysylltiedig â rhagfarn ac eithafiaeth, yn unol â'u cyfnod datblygu
- p'un a oes trefniadau priodol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o sut i fod yn ddiogel ar-lein, ac sy'n cael eu cynnwys yn rheolaidd yng nghwricwlwm yr ysgol

## Adrodd ar ddiogelu

**Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.**

Dylent fel arfer ystyried disgrifio natur unrhyw gryfderau neu ddiffygion yn yr adroddiad, er enghraifft i leddfu pryderon rhieni.

Pan na fydd trefniadau yn bodloni'r gofynion, dylai arolygwyr gynnwys argymhelliad i wella'r ddarpariaeth a bod yr ysgol / UCD yn mynd i'r afael â'r materion diogelu / lles a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Ar ôl yr arolygiad, byddwn yn dosbarthu llythyr 'lles' i'r ysgol a'r awdurdod lleol i ofyn am sicrwydd eu bod yn mynd i'r afael â'r diffyg(ion) yn briodol. Dylai hwn fod yr argymhelliad cyntaf.

**Llythyrau lles a'u heffaith ar werthusiadau ac argymhellion yn yr adroddiad**

Os ceir diffygion diogelu, gan gynnwys materion rheoli safle, sy'n fach, yn hawdd ac yn gyflym mynd i'r afael â hwy, ac sydd heb roi dysgwyr mewn perygl, nid oes angen anfon llythyr lles. Fodd bynnag, rhaid nodi'r diffygion yn yr FfMA, a'u bwydo'n ôl i'r darparwr pan gânt eu nodi gyntaf ac yn y sesiwn adborth derfynol.

Lle canfyddir bod diogelu'n annigonol, rhaid i'r AC drafod y diffygion yng nghyfarfod cymedroli'r tîm, cynnwys manylion yn yr adroddiad, a chynnwys argymhelliad i fynd i'r afael â'r materion hyn. Rhaid i'r AC wedyn gyhoeddi llythyr lles. Bydd y Cydlynydd Arolygu yn arwain yr AC drwy'r broses ac yn rheoli'r broses o ddrafftio'r llythyr gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol priodol.

Gall trefniadau diogelu annigonol olygu:

- prosesau diogelu anghyflawn a/neu aneffeithiol
- lle nad yw'r darparwr yn cydymffurfio â gofynion statudol
- lle mae'n amlwg nad yw'r dysgwyr yn ddiogel
- nid yw staff yn glir ynghylch polisïau a gweithdrefnau diogelu, eu cyfrifoldebau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i ddiogelu dysgwyr
- mae dulliau recriwtio diogel ar gyfer staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn wael, mae cofnodion yn anghyflawn, mae gwiriadau fetio neu restr waharddedig ar goll, neu nid oes asesiadau risg i gwmpasu eithriadau i wiriadau DBS
- mae rheoli ac adrodd ar ddigwyddiadau diogelu a materion rheoli ymddygiad yn unswydd neu'n anghyson
- mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio ymwelwyr neu wirfoddolwyr yn annigonol
- nid ymdrinnir yn effeithiol â bwlio
- nid yw trefniadau ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o sut i fod yn ddiogel gan gynnwys diogelwch ar-lein ac addysg rhywioldeb a pherthnasoedd iach yn effeithiol
- mae'r trefniadau ar gyfer dysgwyr â chyflyrau meddygol yn annigonol

Lle mae pryderon am ddiogelwch y safle a phryderon iechyd a diogelwch eraill, rhaid i'r AC roi gwybod i'r Cydlynydd Arolygu **YN YSTOD** yr arolygiad. Bydd y Cydlynydd yn anfon llythyr i'r awdurdod lleol perthnasol i roi gwybod am ei rwymedigaethau i ymateb i'r pryder. Yna bydd yr ACALI ar gyfer yr awdurdod lleol yn monitro ymateb yr ALI ac unrhyw ddatblygiadau pellach.

## Cofiwch

Gall digwyddiad ddod i'r amlwg ar ôl arolygiad, ac efallai y gofynnir i ni gyfrif am yr hyn yr oeddem yn ei wybod ar y pryd a'r camau a gymerwyd gennym neu na wnaethom eu cymryd. Yn achos anaf difrifol neu farwolaeth, gallai'r atebolrwydd hwn fod trwy Adolygiad Ymarfer Plant. Bydd eich cofnod yn eich FfMT, ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei storio yn y ffeiliau diogelu yn berthnasol yma, felly mae'n hanfodol eich bod yn nodi pob manylyn os credwch ei fod yn berthnasol.

Mewn **ysgolion annibynnol** pan fydd trefniadau diogelu yn anghyflawn, yn aneffeithiol, yn methu â chydymffurfio â gofynion statudol a/neu lle nad yw dysgwyr yn ddiogel, mae'n rhaid i chi eu trafod yng nghyfarfod safoni'r tîm, a chynnwys sylw yn yr adroddiad. Yn yr achosion hyn, ni fydd yr ysgol yn bodloni gofynion safon 3 o reoliadau safonau Ysgolion Annibynnol, a chan ddibynnu ar natur y materion, efallai na fyddant yn cydymffurfio â rheoliadau yn safon 4. Pan na fodlonir safonau'n ymwneud â diogelu, byddwn ni'n dosbarthu llythyr lles i'r perchennog, wedi'i gopïo i Lywodraeth Cymru fel y rheoleiddiwr ar gyfer ysgolion annibynnol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r ysgol ddarparu cynllun gweithredu.

Lle ceir pryderon difrifol ynglŷn â threfniadau diogelu mewn ysgol annibynnol, dylai'r ACof drafod y rhain gyda'r arweinydd sector a fydd yn cysylltu â'r tîm diogelu, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol a Llywodraeth Cymru.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), gwiriadau ailadroddus a hygludedd

Daeth Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 i rym o 10 Medi 2012 gyda mwy o newidiadau yn dod i rym yn raddol dros y blynyddoedd nesaf.

Rhoddwyd y newidiadau canlynol ar waith ym Medi 2012:

- diffiniad newydd o "weithgarwch rheoledig" i ganolbwyntio ar waith sy'n cynnwys cyswllt agos a heb oruchwyliaeth gyda grwpiau bregus
- bydd gweithgareddau a gwaith a dynnwyd allan o'r diffiniad "gweithgarwch rheoledig" yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer gwiriadau Manylach gan y GDG
- diddymu "gweithgarwch rheoledig"
- diddymu cofrestru a monitro parhaus
- diddymu darparu gwybodaeth ychwanegol
- gweithredu isafwm oedran (16) y gall rhywun wneud cais am wiriad gan y GDG
- phrawf 'perthnasedd' mwy trylwyr ar gyfer yr adeg y bydd yr heddlu yn rhyddhau gwybodaeth a gedwir yn lleol am wiriad manylach gan y GDG.

Ar 1 Rhagfyr 2012, unodd y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol i ffurfio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r GDG yn gyfrifol am weinyddu tri math o wiriad:

- **Safonol** – gwiriad ar gofnodion Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu o gollfarnau, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion.
- **Manylach** – gwiriad ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu fel uchod, ynghyd â gwybodaeth arall hefyd sy'n cael ei chadw gan yr heddlu yr ystyrir ei bod yn berthnasol gan yr heddlu
- **Manylach gyda gwybodaeth y rhestr waharddedig** – ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn gweithgarwch rheoledig gyda phlant. Mae hyn yn ychwanegu gwiriadau rhestr waharddedig plant y GDG at y gwiriad manylach.

Yn ystod 2013, lansiodd y GDG ei Wasanaeth Diweddaru. Erbyn hyn, mae cyflogeion yn gallu cofrestru unwaith ar gyfer gwiriad gan y GDG, a fydd wedyn yn cael ei ddiweddaru yn awtomatig ac ar gael i sefydliadau ei wirio.

Fodd bynnag, mae agweddau ar yr hen system nad ydynt yn newid, sef:

- rhaid i gyflogwyr wneud cyfeiriadau priodol at y GDG
- rhaid i gyflogwyr beidio â chaniatáu i rywun y maent yn gwybod eu bod wedi eu gwahardd gan y GDG ymgymryd â gweithgarwch rheoledig
- gall cyflogwyr gynnal gwiriadau ar gyfer unrhyw un a gyflogir mewn gweithgareddau sy'n dod o fewn y diffiniad cyn mis Medi o weithgarwch rheoledig, gan eu bod yn parhau i fod yn gymwys am wiriadau manylach y GDG, p'un a ydynt yn dod o fewn y diffiniad ar ôl mis Medi o weithgarwch rheoledig ai peidio (ond ni fyddant yn gymwys mwyach ar gyfer gwiriadau rhestr waharddedig os nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad newydd o weithgarwch rheoledig).

Yn flaenorol, bu camddealltwriaeth gyffredinol ynglŷn â pha bryd a pha mor aml i gynnal gwiriadau. Mae'r canlynol yn nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas ag ysgolion ynglŷn â phryd y mae angen cadarnhau gwiriadau cyn i gyflogai allu dechrau gweithio.

- Cafodd gwiriadau gan y SCT eu hargymell yn gryf ar gyfer pob cyflogai sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd os cawsant eu cyflogi ar ôl Mawrth 2002. Fodd bynnag, yr unig ofyniad i'r rhai a benodwyd cyn y dyddiad hwn yw bod yn rhaid iddynt fod wedi cael eu gwirio yn erbyn Rhestr 99.
- Daeth gwiriadau'r SCT yn orfodol ar gyfer gweithlu cyfan ysgolion a gynhelir o 12 Mai 2006 (Medi 2003 ar gyfer ysgolion annibynnol). Rhaid i gyflogeion a ddechreuodd yn eu swydd o'r dyddiad hwn fod wedi cael datgeliad manwl gan y SCT.
- **Nid oes angen mwy o wiriadau** ar gyfer unrhyw staff oni bai bod yr unigolyn yn cael seibiant o wasanaeth am fwy na thri mis. Nid oes gofyniad statudol i staff gael gwiriadau wedi'u diweddaru'n rheolaidd, er y gall rhai cyflogwyr fynnu hyn fel polisi. Hefyd, nid oes gofyniad statudol i staff a gyflogwyd cyn Mawrth 2002 fod wedi cael gwiriadau ôl-weithredol gan y SCT neu'r GDG ar yr amod eu bod wedi bod mewn gwasanaeth parhaus. Yn y cyd-destun hwn, mae parhad yn golygu nad oes unrhyw seibiant mewn gwasanaeth sy'n hwy na thri mis. Fodd bynnag, cyn 2002, roedd gofyniad i bob un o'r staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fod wedi cael eu gwirio yn erbyn Rhestr 99, a dylid gwirio tystiolaeth o hyn.

Gall cyflogwr ond ofyn am wiriad y rhestr waharddedig ar gyfer y staff hynny sy'n ymgymryd â gweithgarwch rheoledig. Mae'n drosedd i ofyn am wiriad y rhestr waharddedig ar gyfer unrhyw rôl arall.

O dan Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, mae cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn ofyniad statudol ar gyfer pob athro sy'n gweithio mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru. Mae'r GDG yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Gyngor y Gweithlu Addysg ar unigolion sydd wedi'u gwahardd. Sylwer nad yw rhai troseddau yn atal unigolyn rhag cofrestru fel athro.

### Craffu ymlaen llaw ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Staff (DBS)

Mae'r holl ddogfennau a uwchlwythwyd yn cael eu storio'n ddiogel yn SharePoint yr arolygiaeth, gyda mynediad cyfyngedig a mesurau dilysu cryf. Mae'r VIR yn derbyn profion diogelwch rheolaidd, ac mae telerau ac amodau sefydledig ar gyfer arolygwyr. Mae Estyn yn gweithredu fel rheolydd data personol annibynnol, gan nodi cydymffurfiaeth â GDPR y DU. Mae'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data wedi'i hamlinellu yn Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU, sy'n ymwneud â thasgau cyhoeddus fel rheoleiddiwr. Mae'n bwysig nodi nad yw'r holl wybodaeth DBS y gofynnir amdani yn ddata sensitif a'i bod yn cael ei defnyddio at ddibenion arolygu yn unig, yn unol â chanllawiau GDPR ar ddata troseddau troseddol. Mae hysbysiad preifatrwydd Estyn yn rhoi manylion ychwanegol am gasglu data, defnyddio, hawliau unigol, a gwybodaeth gyswllt ar gyfer ymholiadau neu gwynion.

**Staff cyflenwi ac ymwelwyr a gyflogir gan asiantaeth**

Dylai staff fel seicolegwyr addysg, athrawon cyflenwi, athrawon dan hyfforddiant, nyrsys, hyfforddwyr chwaraeon a gyflogir gan asiantaeth gael gwiriad gan y SCT neu'r GDG trwy eu cyflogwr, er enghraifft yr asiantaeth gyflenwi, y brifysgol, neu'r awdurdod lleol.

Mae'n ddigonol i ysgolion ofyn am gadarnhad ysgrifenedig bod yr holl wiriadau priodol wedi cael eu cynnal ar gyfer y bobl hyn (wrth eu penodi gan amlaf) a chan bwy (yr adran adnoddau dynol berthnasol gan amlaf). Wedyn, dylai ysgolion gadarnhau pwy yw'r ymwelwyr hyn.

**Staff cyflenwi nad ydynt yn gyflogeion asiantaeth**

Nid yw llawer o'r staff hyn yn cael eu cyflogi gan asiantaeth gyflenwi, felly, ni all ysgolion dybio bod staff cyflenwi sy'n cael eu paru â nhw fel hyn wedi bod trwy'r gweithdrefnau archwilio angenrheidiol. Dylai ysgolion gadarnhau yn uniongyrchol gyda'r asiantaeth gyflenwi unigol, bod y gwiriadau recriwtio angenrheidiol wedi cael eu cynnal cyn i staff ddechrau gweithio gyda nhw.

**Staff rhan-amser**

Gall staff rhan-amser ddefnyddio'r un gwiriad gan y SCT neu'r GDG ar gyfer dwy swydd neu fwy ar yr amod eu bod ar lefel debyg **a** bod yr ysgol yn fodlon ynglŷn â'u geirwiredd a'u priodoldeb.

**Llywodraethwyr/aelodau o bwyllgor rheoli UCD**

Mae'r sefyllfa yn ymwneud â llywodraethwyr wedi newid o dan **Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012**. Gan nad yw Llywodraethwyr ysgol yn ymgymryd â gweithgarwch rheoledig mwyach, nid oes gofyniad iddynt gael gwiriadau archwilio a gwahardd. Fodd bynnag, lle mae llywodraethwyr yn cynnal rhyw fath o gyswllt rheolaidd (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf; mae 'rheolaidd' yn golygu bod y gweithgarwch yn cael ei wneud gan yr un unigolyn yn aml (unwaith yr wythnos neu'n amlach), neu ar 3 diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod (neu mewn rhai achosion, dros nos)). O ran disgyblion, maent yn destun asesiad risg a gwiriad archwilio a gwahardd posibl oni bai eu bod yn cael eu goruchwylio'n ddigonol.

**Symud rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol**

Er Medi 2006, mae asiantaethau cyflenwi wedi gallu trosglwyddo gwiriadau gan y SCT neu'r GDG rhwng asiantaethau cyflenwi ysgolion eraill a rhwng ysgolion unigol.

- Os yw cyflogai wedi cael gwiriad gan y SCT neu'r GDG, **nid oes gofyniad statudol** i gynnal gwiriad arall gan y SCT neu'r GDG cyn dechrau ar swydd mewn ysgol wahanol neu hyd yn oed mewn awdurdod lleol gwahanol, ar yr amod bod ganddynt wasanaeth parhaus a bod y gwiriad ar y lefel gywir ar gyfer y swydd newydd.
- Mae'r un peth yn berthnasol i rywun nad yw efallai wedi cael gwiriad gan y SCT neu'r GDG am iddo/iddi fod mewn swydd cyn 2002; hynny yw, nid oes gofyniad

statudol i gynnal rhagor o wiriadau.

- Lle'r sefydliad sy'n derbyn yw penderfynu a yw am gynnal asesiad risg i asesu p'un a yw'r gwiriad ar y lefel gywir ar gyfer y rôl bresennol, p'un a yw'n gywir a ph'un a ydynt yn ymddiried yn y sefydliad blaenorol i fod wedi cynnal y gwiriad yn effeithlon.
- Dylai'r ysgol neu'r awdurdod lleol ofyn am dystiolaeth gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol blaenorol bod y gwiriad wedi cael ei gynnal. Mae rhai ysgolion ac awdurdodau lleol yn amharod i dderbyn staff sy'n trosglwyddo heb ofyn am dystysgrif datgeliad newydd gan y SCT neu'r GDG gan eu bod yn credu y byddem ni'n feirniadol o drefniadau o'r fath. Dylai arolygwyr osgoi rhoi unrhyw argraff ein bod yn ei hystyried yn arfer dda gofyn am dystysgrifau datgeliad newydd gan y SCT neu'r GDG yn rheolaidd, pryd bynnag y caiff aelod o staff ei recriwtio yn uniongyrchol o ysgol arall heb gael seibiant mewn gwasanaeth. Dylid annog ysgolion i asesu risg pob achos yn unigol a bod yn barod i ddangos y sail ar gyfer eu penderfyniadau.
- Dylid rhoi barn anfoddhaol i ysgolion / awdurdodau lleol sy'n methu â sicrhau tystiolaeth fod staff cyflogedig a gwirfoddolwyr nad ydynt yn cael eu goruchwylio wedi cael y gwiriadau priodol gan y GDG cyn y bydd yr aelod o staff yn dechrau addysgu wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, dylai ysgol neu awdurdod lleol gael barn digonol lle mae wedi dechrau'r broses wirio ar waith ond lle nad yw eto wedi cael cadarnhad o addasrwydd, ac mae hefyd wedi cynnal asesiad risg priodol a sicrhau goruchwyliaeth briodol ar gyfer yr aelod staff.
- Gwirfoddolwyr sy'n cael eu goruchwylio yw'r unig rai nad oes angen gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd arnynt gyda gwiriadau'r rhestr waharddedig.

Mae'r rheoliadau uchod yn berthnasol i bob ysgol, yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion. Mae lleoliadau gofal cymdeithasol a lleoliadau preswyl yn rhwym wrth y safonau gofynnol cenedlaethol sydd â gofynion mwy llym o ran gwiriadau diogelu. Mewn lleoliadau o'r fath, **gall** staff ddechrau yn eu swyddi cyn bod cliriad gan y GDG wedi'i dderbyn, ond rhaid bod y cais wedi'i wneud am y cliriad, a rhaid i'r aelod o staff sy'n aros am y cliriad gael ei (g)oruchwylio pan fydd mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc.

## Addysg gychwynnol i athrawon

Yn achos athrawon dan hyfforddiant ar gyrsiau addysg gychwynnol i athrawon, cyfrifoldeb y bartneriaeth addysg gychwynnol i athrawon, nid cyfrifoldeb yr ysgol sy'n derbyn, yw sicrhau bod gwiriadau recriwtio priodol yn cael eu gwneud. Os bydd oedi wrth dderbyn datgeliadau gan y GDG, mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn rhoi hawl i ddewis i alluogi myfyrwyr i ddechrau gweithio mewn ysgol yn amodol ar wiriad boddhaol o restr waharddedig plant y GDG a chwblhau gweithdrefnau recriwtio arferol eraill.

Dylai'r bartneriaeth roi gwybod i'w harweinwyr ysgol yn llawn am gynnydd y ceisiadau am ddatgeliadau, gan y bydd angen i'r arweinwyr hyn gynnal goruchwyliaeth agosach o fyfyrwyr nad ydynt wedi cael cliriad manwl eto. Rhaid i arweinwyr fod yn fodlon bod gwiriadau yn wir wedi cael eu gwneud.

Mae'r sefyllfa'n wahanol i athrawon dan hyfforddiant ar lwybr hyfforddiant athrawon

ar sail cyflogaeth. Cânt eu cyflogi gan yr ysgol, a dylai'r ysgol felly sicrhau cliriad yn yr un ffordd ag aelodau eraill o staff a gyflogir yn uniongyrchol.

## Gweithgarwch rheoledig fel y'i diffinnir gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012

Mae'r diffiniad llawn a chyfreithiol o weithgarwch rheoledig wedi'i amlinellu yn Atodlen 4 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, fel y'i diwygiwyd (gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn benodol).

Mae Gweithgarwch Rheoledig yn parhau i eithrio trefniadau teuluol, a threfniadau personol, anfasnachol.

Mae'r **diffiniad newydd o weithgarwch rheoledig** mewn perthynas â phlant yn cynnwys y canlynol:

(i) **Gweithgareddau heb oruchwyliaeth**: addysgu, hyfforddi, rhoi cyfarwyddyd, gofalu am blant neu'u goruchwylio, neu roi cyngor/arweiniad ar les, neu yrru cerbyd ar gyfer plant yn unig.
(ii) **Gweithio i ystod gyfyngedig o sefydliadau** ('lleoedd penodol'), gyda chyfle am gyswllt: er enghraifft, ysgolion, cartrefi plant, safleoedd gofal plant. **Nid gwaith** gan wirfoddolwyr sy'n cael eu goruchwylio.

Mae gwaith o dan (i) neu (ii) yn weithgarwch rheoledig dim ond os caiff ei wneud yn rheolaidd. Mae rheolaidd yn golygu bod y gweithgarwch yn cael ei wneud gan yr un unigolyn yn aml (unwaith yr wythnos neu'n amlach), neu ar 3 diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod (neu dros nos, mewn rhai achosion).

Mae'r llywodraeth wedi darparu arweiniad statudol am oruchwylio gweithgarwch, a fyddai'n weithgarwch rheoledig pa na bai'n cael ei oruchwylio.

(iii) **Gofal personol perthnasol**, er enghraifft golchi neu wisgo; neu ofal iechyd gan weithiwr proffesiynol neu dan ei oruchwyliaeth.
(iv) **Gwarchod plant cofrestredig**; a gofalwyr maeth.

**Beth sydd ddim yn weithgarwch rheoledig mwyach wrth weithio gyda phlant?**

- Gweithgarwch wedi'i oruchwylio ar lefel resymol
- Gofal iechyd nad yw'n cael ei roi (neu dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth) gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.
- Cyngor cyfreithiol
- "triniaeth/therapi" ("gofal iechyd" yn lle)
- Gwasanaethau achlysurol neu dros dro, (dim addysgu, ac ati) e.e. gwaith cynnal a chadw mewn ysgol
- Gwirfoddolwyr sy'n cael eu goruchwylio ar lefel resymol.

## Delio â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill Cylchlythyr 009/2014 Llywodraeth Cymru

https://gov.wales/keeping-learners-safe

Mae hwn yn ganllaw statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach, ac yn ganllaw anstatudol ar gyfer ysgolion annibynnol.

Dylai fod gweithdrefnau gan ysgolion a cholegau addysg bellach ar gyfer delio â honiadau, a dylai pob un o'r staff a'r gwirfoddolwyr ddeall beth i'w wneud os byddant yn cael honiad neu os bydd ganddynt bryderon ynghylch aelod arall o staff.

Dylai'r gweithdrefnau ei gwneud yn glir **y dylid rhoi gwybod am bob honiad ar unwaith**, fel arfer i'r pennaeth, y prifathro, neu'r perchennog, os yw'n ysgol annibynnol.

Dylai'r gweithdrefnau hefyd nodi'r unigolyn, fel arfer cadeirydd y llywodraethwyr, y dylid gwneud cyfeiriadau atynt yn eu habsenoldeb; neu mewn achosion lle mai'r pennaeth neu'r prifathro ei hun yw testun yr honiad neu'r pryder. Ar gyfer UCDau, gallai'r unigolyn hwn fod yn swyddog awdurdod lleol yn hytrach na chadeirydd y pwyllgor rheoli.

Dylai gweithdrefnau hefyd gynnwys manylion cyswllt ar gyfer swyddog yr awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb am ddarparu cyngor a monitro achosion o gam-drin proffesiynol. Dylid rhoi gwybod i Swyddog yr Awdurdod Lleol am yr holl honiadau sy'n dod i sylw ysgol ac y mae'n ymddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir isod.

Honnir bod aelod o staff:

- wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi gwneud niwed i blentyn, neu a allai fod wedi gwneud niwed i blentyn;
- wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu'n gysylltiedig â phlentyn o bosibl; neu
- wedi ymddwyn tuag at blentyn neu blant mewn ffordd sy'n dangos y byddai'n achosi risg o niwed os ydynt yn gweithio'n rheolaidd neu'n agos â phlant.

Mae'r gweithdrefnau uchod yn ymwneud ag aelodau o staff sy'n gweithio mewn unrhyw ysgol ar hyn o bryd, p'un ai'r ysgol yw'r man lle digwyddodd y cam-drin honedig ai peidio.

Dylai honiadau yn erbyn athro nad yw'n addysgu mwyach gael eu cyfeirio at yr heddlu.

## Gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar achosion o gamymddwyn ac anghymwystra yn y gweithlu addysg yng Nghymru. Cylchlythyr 168/2015 Llywodraeth Cymru

https://gov.wales/keeping-learners-safe

Mae’r arweiniad hwn yn amlinellu’r trefniadau adrodd ar gyfer achosion o gamymddwyn proffesiynol ac anghymwystra proffesiynol yn y gwasanaeth addysg. Mae’n berthnasol i ddarparwyr addysg yn y sector a gynhelir a’r sector annibynnol, fel ei gilydd.

Yn gryno:

- Os caiff aelod o staff neu wirfoddolwr ei ddiswyddo neu’i fod yn ymddiswyddo cyn cael ei ddiswyddo am gamymddwyn sy’n ymwneud â niwed, neu risg o niwed, i blentyn neu oedolyn bregus, rhaid i’r cyflogwr gyfeirio’r mater at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Os yw’r aelod o staff wedi’i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, rhaid i’r cyflogwr gyfeirio’r achos at Gyngor y Gweithlu Addysg hefyd.

- Os caiff aelod o staff neu wirfoddolwr sydd wedi ei gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ei ddiswyddo neu’i fod yn ymddiswyddo cyn cael ei ddiswyddo am gamymddwyn nad yw’n ymwneud â’r niwed, neu risg o niwed, i blentyn neu oedolion bregus, rhaid i’r cyflogwr gyfeirio’r achos at Gyngor y Gweithlu Addysg.

- Os caiff aelod o staff neu wirfoddolwr nad yw wedi ei gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (e.e. gofalwr) ei ddiswyddo am gamymddwyn nad yw’n ymwneud â niwed i blentyn neu oedolyn bregus, dylai’r cyflogwr ddelio â’r achos o dan ei weithdrefnau disgyblu ei hun.

## Atal radicaleiddio ac eithafiaeth

O 1 Gorffennaf 2015, mae'n rhaid i ysgolion, UCDau a sefydliadau AB 'roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth'. Amlinellir hyn yn Adran 26 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r Canllaw dyletswydd atal cysylltiedig o dan adran 29 y Ddeddf.

Bydd cyd-destun yr ysgol yn effeithio ar y graddau y bydd angen i arolygwyr ystyried gwaith yr ysgol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob ysgol ac UCD gydymffurfio â'r ddyletswydd a dylai arolygwyr fodloni'u hunain fod y darparwr yn ymwybodol o'r ddyletswydd ac yn gweithredu'n briodol.

## Trais yn erbyn merched, camdrin domestig a thrais rywiol

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu fod unrhyw un sydd yn ymwneud â chleientau sydd wedi eu heffeithio gan drais yn erbyn menywod, trais yn y cartref neu drais rhywiol yn ymgymmryd â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Felly, mae'n ofynnol i holl staff ysgol gwnlhau modiwl e-ddysgu arlein. (Rhaglen VAWDASV Cenedlaethol)

## Diogeledd

### Diogeledd safle a diogelwch safle

Cyfrifoldeb y pennaeth a'r corff llywodraethol yw sicrhau bod safle'r ysgol a'i hadeilad yn ddiogel. Bydd y trefniadau hyn yn amrywio o un ysgol i'r llall yn dibynnu ar natur y safle ac oedran y disgyblion ar y gofrestr. Gallai trefniadau mewn ysgolion cynradd fod yn wahanol i'r rhai mewn ysgolion uwchradd. Yn achos UCD, yr awdurdod lleol ac nid yr athro sydd â gofal / pwyllgor rheoli sydd â'r cyfrifoldeb sylfaenol.

Rydym yn disgwyl i'r ysgol:

- gynnal asesiad risg trylwyr o safle'r ysgol, er enghraifft ystyried diogeledd y safle, hawliau tramwy cyhoeddus, trefniadau rheoli traffig a chyflwr yr holl adeiladau
- gwneud trefniadau priodol i reoli'r risgiau hynny yn briodol
- dweud wrth eu cyflogeion am y risgiau a'r camau y dylid eu cymryd i'w rheoli
- sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei roi i gyflogeion ar faterion iechyd a diogelwch

### Defnyddio cyfleusterau canolfan hamdden

Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel wrth ddefnyddio cyfleusterau canolfan hamdden. Dylai hyn gynnwys nid yn unig ddefnydd disgyblion o'r cyfleusterau, ond hefyd trefniadau teithio ar gyfer cyrraedd y rhain pan na fyddant ar safle a rennir. Dylai fod gan ddysgwyr gyfleusterau newid dynodedig na all y cyhoedd fynd iddynt pan fydd y dysgwyr yn eu defnyddio. Rydym yn disgwyl i'r ysgol gynnal asesiad risg trylwyr o ddefnydd yr ysgol o gyfleusterau o'r fath a gwneud trefniadau priodol i reoli'r risgiau hynny yn briodol.

## Diogelu gwybodaeth ac arolygiadau

**Cyngor i Arolygwyr Cofnodol ac arolygwyr tîm ar bwysigrwydd ystyried unrhyw wybodaeth a ddelir gennym ni ynglŷn â chwynion gan rieni yn erbyn darparwr, ac unrhyw faterion diogelu wrth reoli arolygiad.**

Wrth baratoi ar gyfer arolygiad, bydd y CydAr yn rhoi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol a oes unrhyw wybodaeth berthnasol am ddiogelu, neu gwynion am y darparwr a ddelir gan Estyn. Mae hyn er mwyn i'r Arolygydd Cofnodol allu defnyddio'r wybodaeth hon i lywio trywyddau ymholi. Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol a gall rybuddio'r Arolygydd Cofnodol y gallai rhieni godi pryderon yn ystod y noson rieni, neu hyd yn oed ar ôl yr arolygiad. Pan fydd y CydAr wedi nodi bod gwybodaeth am ddiogelu, rhaid i'r Arolygydd Cofnodol gysylltu ag aelod o'n Tîm Swyddogion Diogelu Arweiniol i gael brîff, a fydd yn awgrymu trywydd ymholi addas.

Gall yr Arolygydd Cofnodol ddefnyddio ffurflen hunanwerthuso diogelu'r darparwr a'r holiaduron i rieni a dysgwyr hefyd i lywio eu trywyddau ymholi ar gyfer lles a diogelu. Pan fydd y dystiolaeth cyn-arolygiad mewn unrhyw sector yn nodi materion diogelu posibl neu reolaeth wael gan y darparwr, gofynnwch am arweiniad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol eich sector a'r Tîm Diogelu. Pan fydd modd cyfeirio mater newydd o bosibl, rhaid cymhwyso ein polisi diogelu.

Yn ystod yr arolygiad, os byddwn yn cael unrhyw wybodaeth berthnasol am fater diogelu, bydd aelod o'n tîm diogelu yn rhoi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol ac yn cytuno sut i ddelio â'r mater. Rhaid i'r Arolygydd Cofnodol sicrhau ei fod yn cofnodi unrhyw dystiolaeth yn gysylltiedig ag unrhyw drywyddau ymholi diogelu o gyfweliadau, arsylwadau neu ddarllen ffeil yn eu FfF, oherwydd gellid bod angen hyn ar gyfer unrhyw ohebiaeth ddilynol sy'n codi ar ôl yr arolygiad. Os bydd yr Arolygydd Cofnodol neu aelod arall o'r tîm yn cofnodi unrhyw wybodaeth gyfrinachol, dylid trosglwyddo'r wybodaeth hon i aelod o'n Tîm Diogelu i'w ffeilio'n ddiogel. Ni ddylid cofnodi manylion am y wybodaeth gyfrinachol hon yn y FfF, ond dylid gwneud nodyn bod y deunydd wedi cael ei drosglwyddo i aelod o'n Tîm Diogelu ynghyd â'r rhif achos perthnasol.

Gallai digwyddiad ddod i'r amlwg ar ôl arolygiad, a gellid gofyn i ni roi cyfrif am yr hyn yr oedd yn ei wybod ar y pryd a'r camau a gymerodd, neu na chymerodd. Yn achos anaf difrifol neu farwolaeth, gallai'r atebolrwydd hwn fod trwy Adolygiad Achos Difrifol. Mae'n hanfodol cofnodi unrhyw wybodaeth yn eich FfF, ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei rhannu o'n ffeiliau diogelu.

## Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd

Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd | LLYW.CYMRU

Mae’r ddogfen hon wedi’i chynllunio i gynorthwyo awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol, lleoliadau addysg, gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol a sefydliadau eraill i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a sicrhau cyn lleied o aflonyddwch ag y bo modd i’w haddysg. Mae’n cynnwys arweiniad statudol, a chyngor anstatudol fel ei gilydd.

Yn gryno:

- **Rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol ystyried[1] yr arweiniad statudol hwn wrth gyflawni eu dyletswyddau o ran hyrwyddo lles plant sy’n ddysgwyr yn y lleoliad addysg, gan gynnwys bodloni eu hanghenion gofal iechyd. Mae’r arweiniad hefyd yn berthnasol i weithgareddau sy’n cael eu cynnal oddi ar y safle fel rhan o weithgareddau addysgol arferol.

- Dylai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gael eu cefnogi’n briodol fel eu bod yn elwa’n llawn ar addysg, gan gynnwys teithiau ac addysg gorfforol.

- Rhaid i gyrff llywodraethol sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

- Dylai cyrff llywodraethol sicrhau bod staff lleoliadau addysg yn ymgynghori â’r gweithwyr proffesiynol perthnasol, y dysgwyr a’r rhieni i sicrhau bod anghenion y dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu deall yn briodol a’u cefnogi’n effeithiol.

- Mae angen trefnu bod Polisi Anghenion Gofal Iechyd yr awdurdod lleol neu’r ysgol ar gael **ar-lein** i rieni a dysgwyr ei weld. Pan na fydd hyn yn bosibl, e.e. nid oes gwefan gan yr ysgol, dylid trefnu bod copïau caled ar gael.

Mae’r arweiniad yn darparu gwybodaeth am y canlynol:

- Y gweithdrefnau ar gyfer cadw cofnodion a rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr

- Creu amgylchedd dysgu hygyrch

- Storio, defnyddio a gweinyddu meddyginiaeth a dyfeisiau

- Hyfforddi staff

- Gweithdrefnau mewn argyfwng

- Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol

- Arfer annerbyniol

## Atal corfforol

Defnyddir ataliaeth mewn darparwyr a cholegau ledled Cymru. Nid yw'r arferion hyn yn berthnasol i ddarparwyr arbennig. Mae'n bwysig fod AEF yn gwerthuso'r arferion hyn yn gyfartal ar draws yr holl leoliadau.

Beth yw ataliaeth?

**Geirfa termau**

**Ataliaeth**

*Sylwer: mae hwn yn derm ymbarél sy'n cyfeirio at y ffurfiau niferus o ataliaeth a restrir isod. Weithiau, cymerir bod y term yn cyfeirio at ataliaeth gorfforol weithredol yn unig.*

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA) (Llywodraeth y DU, 2019) yn diffinio ataliaeth fel pan fydd rhywun yn "defnyddio grym, neu'n bygwth defnyddio grym, i orfodi rhywun i wneud rhywbeth y mae'n ei wrthwynebu, neu atal rhyddid symudiad rhywun, p'un a yw'n gwrthwynebu ai peidio.

Mae Ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC, 2021) yn diffinio ataliaeth fel gweithred a gyflawnir gyda'r diben i gyfyngu ar symudiad a rhyddid unigolyn i weithredu'n annibynnol.

**Arferion cyfyngol**

*Term arall: ymyriadau cyfyngol.*

Mae arferion cyfyngol yn cynnwys ystod eang o weithgareddau sy'n rhwystro unigolion rhag gwneud pethau maen nhw eisiau eu gwneud neu'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt eisiau eu gwneud. Gallant fod yn amlwg iawn neu'n gynnil iawn. (Cyngor Gofal Cymru, 2016)

Mae'r term hwn yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau sy'n cyfyngu pobl. Mae'n cynnwys:

- ataliaeth gorfforol (gweithredol neu oddefol)
- ataliaeth gemegol
- ataliaeth amgylcheddol
- ataliaeth fecanyddol
- neilltuaeth neu ynysu gorfodol
- gwahanu dros y tymor hir
- gorfodaeth (LIC, 2021a)

**Ataliaeth Gorfforol Weithredol**

*Termau eraill: ymyrraeth gorfforol, ataliaeth gorfforol, daliadau diogel, defnyddio grym rhesymol, gweithrediad clinigol.*

Mae hwn yn ddull o arfer gyfyngol lle caiff gweithredoedd neu symudiadau dysgwr eu rheoli trwy ddefnyddio grym yn weithredol. (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2021)

**Ataliaeth Gorfforol Oddefol**

Dull o arfer gyfyngol sy'n cynnwys cyswllt corfforol uniongyrchol, ond nid grym gweithredol, i gyfyngu symudiad ar, neu reoli, symudiadau neu weithredoedd dysgwr. (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2021). Er enghraifft, dal llaw rhywun ger ffordd brysur.

**Ataliaeth Gemegol**

Pan ofynnir am gymorth gan aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant meddygol i roi meddyginiaeth i reoli neu leddfu ymddygiad dysgwr. Gallai'r feddyginiaeth hon gael ei chymryd yn uniongyrchol wrth ymateb i ymddygiad heriol, neu fel rhan o drefn ddyddiol. (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2021)

**Ataliaeth Fecanyddol**

Pan fydd staff yn defnyddio deunyddiau neu offer i atal ar allu dysgwr i symud neu weithredu, fel sblintiau braich, gwregysau neu gyffiau. Mae hyn hefyd yn cynnwys symud cymhorthion ategol fel cadair olwyn neu ffon gerdded i atal dysgwr rhag gallu symud yn annibynnol. (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2021)

**Neilltuaeth**

Pan fydd dysgwr yn cael ei dynnu o sefyllfa ystafell ddosbarth neu ddarparwr arall yn erbyn ei ewyllys a chyfyngu symudiad dysgwr yn anwirfoddol, ar wahân i ddysgwyr eraill, mewn man lle mae'n rhaid i'r dysgwr aros ar ei ben ei hun ar wahân i ddysgwyr eraill. (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2021)

**Ataliaeth Amgylcheddol**

Mae ataliaeth amgylcheddol yn golygu cyfyngu ar symudiad rhywun heb ei ganiatâd.

**Ymddygiad**

Y ffordd y mae rhywun yn ymddwyn wrth ymateb i sefyllfa neu symbyliad penodol. Nid yw'r term 'ymddygiad' yn golygu bod y gweithredoedd yn negyddol neu'n ddieisiau, o reidrwydd. (Oxford Languages, 2021)

**Ymddygiadau sy'n herio**

*Term arall: ymddygiad heriol.*

Ymddygiad sy'n annormal yn ddiwylliannol sydd mor ddwys, mynych neu'n para mor hir fel bod diogelwch corfforol yr unigolyn yn debygol o gael ei roi mewn perygl difrifol, neu ymddygiad sy'n debygol o gyfyngu'n ddifrifol ar fynediad at, neu

ddefnydd o, gyfleusterau cymunedol arferol, neu wrthod mynediad atynt. (Emerson, 1995)

Gellir disgrifio bod ymddygiad yn heriol pan mae mor ddwys, mynych neu'n para mor hir fel ei fod yn bygwth ansawdd bywyd a/neu ddiogelwch corfforol yr unigolyn neu bobl eraill, ac yn debygol o arwain at ymatebion sy'n gyfyngol, yn anghymhellol neu'n arwain at waharddiad. (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion et al, 2007)

**Cyfyngiadau cyffredinol**

Diffyg mynediad cyffredinol at rai lleoedd neu weithgareddau sydd ar waith, ni waeth beth yw anghenion unigolyn.

**Is-gyfeirio**

Y weithred i symud o gyflwr o densiwn uchel i gyflwr o densiwn llai. (Richards, 2007)

**Ataliaeth dueddol**

Mae'r unigolyn sy'n destun ataliaeth gorfforol weithredol yn gorwedd â'i wyneb tuag i lawr. Dangoswyd bod hyn yn gysylltiedig â chyfraddau uchel o anafiadau, a marwolaeth, oherwydd mygu lleoliadol, mewn rhai amgylchiadau.

**Ataliaeth orweddol**

Mae'r unigolyn sy'n destun ataliaeth gorfforol weithredol yn gorwedd â'i wyneb tuag i fyny.

**Adolygiad ar ôl digwyddiad**

*Termau eraill: ôl-drafodaeth, myfyrio.*

Adolygiad sy'n cynnwys dwy elfen ar wahân:

1. Cymorth ar ôl digwyddiad.

   Hwn yw'r cymorth a gynigir ar unwaith i unigolyn sydd wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiad. Dylai gynnwys asesiad a thriniaeth ar gyfer unrhyw anghenion meddygol a darparu cymorth emosiynol uniongyrchol.

2. Adloygiad myfyrio a dysgu ar ôl digwyddiad.

   Mae hwn yn adolygiad nad yw'n beio lle mae'r ffactorau a arweiniodd at ddefnyddio'r ataliaeth yn cael eu harchwilio, a chamau'n cael eu cytuno sy'n cefnogi atal digwyddiadau yn y dyfodol neu leihau effaith ac ymateb llai cyfyngol yn y dyfodol. (Y Rhwydwaith Lleihau Ataliad, 2019)

**Pryd mae modd cyfiawnhau defnyddio ataliaeth?**

Yng Nghymru a Lloegr, mae gan staff darparwr y pŵer i ddefnyddio ‘grym rhesymol’ i atal dysgwr rhag:

- cyflawni unrhyw drosedd
- achosi anaf personol neu ddifrod i eiddo unrhyw unigolyn (gan gynnwys yr unigolyn ei hun)
- bod yn niweidiol i gynnal trefn a disgyblaeth dda yn y darparwr neu ymhlith unrhyw ddysgwyr sy’n derbyn addysg yn y darparwr.

Caiff staff hefyd ddefnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer statudol i chwilio dysgwyr am arfau, heb eu caniatâd, lle mae ganddynt resymau rhesymol dros eu hamau.

Gall staff hefyd neilltuo neu ynysu dysgwr mewn ardal i ffwrdd oddi wrth ddysgwyr eraill os yw’n aflonyddgar. Gellir defnyddio’r dull hwn fel cosb ddisgyblu. Mae gan ddarparwyr ddisgresiwn ynglŷn â pha mor hir i ynysu dysgwr ac ym mha amgylchiadau, gan arwain at amrywiaeth o arferion. Rhaid i ddarparwyr gael polisi ymddygiad a ddylai amlinellu beth yw’r arferion hyn.

Dydy hi byth yn gyfreithlon defnyddio:

- ataliaeth gyda bwriad o arteithio, sarhau, trallodi neu israddio rhywun
- dull i atal rhywun sy’n gynhenid annynol neu ddiraddiol, neu sy’n arwain at arteithio
- grym corfforol fel ffordd o gosbi
- ataliaeth sy’n sarhau unigolyn yn ddiangen neu fel arall yn gwneud unigolyn yn agored i driniaeth ddifrifol neu amodau sy’n annynol neu’n ddiraddiol (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2019

Tystiolaeth i’w hystyried yn ystod arolygiad:

- Cofnodion hyfforddiant staff
- Cynlluniau datblygu unigol neu gyfwerth
- Cynlluniau codi a chario
- Cofnodion gwaharddiadau
- Arsylwi a thrafod
- Cofnodion ataliaeth
- Glynu at bolisi
- Defnyddio ‘mannau tawel’

| Tystiolaeth | Trywyddau ymholi posibl |
|---|---|
| Cofnodion hyfforddiant staff | - A yw staff allweddol yn cael hyfforddiant rheolaidd a phriodol?<br>- A yw hyfforddiant yn cadw staff a dysgwyr yn ddiogel?<br>- A yw’r staff cywir yn cael eu hyfforddi?<br>- A yw hyfforddiant yn briodol ar gyfer oedran / cyfnod / anghenion meddygol dysgwyr? |

| | |
|---|---|
| CDUau | - A yw dysgwyr wedi eu heithrio'n feddygol rhag ataliaeth? A ddilynir hyn?<br>- A yw arferion cyfyngol yn rhwystro cynnydd yn erbyn amcanion CDU?<br>- A yw dysgwyr yn destun arferion cyfyngol sy'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, neu arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio arnyn nhw? |
| Arsylwi a thrafodaethau | - A oes ymateb cyson i ymddygiadau sy'n herio?<br>- A yw staff yn dilyn cynlluniau ymddygiad a chynlluniau trin a thrafod cadarnhaol?<br>- A yw'r cynlluniau hyn yn fuddiol?<br>- A oes gan y darparwr gysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr dysgwyr sy'n destun arferion cyfyngol sy'n helpu parhad yn y cartref? |
| Cofnodion ataliaeth | - A ydynt yn bodloni'r gofynion ym mholisi'r darparwr ei hun?<br>- A ydynt yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfoes?<br>- A oes proses ar gyfer goruchwylio'r cofnodion hyn?<br>- A yw arweinwyr yn gwirio mynychter ataliaeth a ph'un a oes unrhyw dueddiadau? Yn enwedig o ystyried nodweddion gwarchodedig.<br>- A gaiff achosion o ataliaeth eu holrhain ac a oes gwelliant mewn ymddygiad dros gyfnod? |
| Glynu at bolisi'r darparwr | - A yw staff yn ymwybodol o bolisïau yn y maes hwn?<br>- A gaiff polisïau eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn gyson? |
| Defnyddio 'mannau tawel' | - A yw'r rhain yn cael eu defnyddio fel ffordd o gosbi?<br>- A oes panelau gweld ar ddrysau? |
| Cymorth ar ôl digwyddiad | - Beth sydd ar waith ar gyfer staff? A dysgwyr?<br>- Pa mor effeithiol yw hyn? |

**Beth ddylai cofnodion ataliaeth darparwr ei gynnwys?**

Weithiau, cyfeirir at hwn fel y 'llyfr rhwymedig'. Fodd bynnag, gallai darparwyr storio'r wybodaeth hon yn electronig neu mewn cofnodion papur.

| **RHAID i ddarparwyr:** | **Arfer orau:** |
|---|---|
| Ddilyn eu polisi eu hunain yn gywir. | Dylai'r cofnod gynnwys:<br>• y math o ataliaeth<br>• y rheswm / rhesymau dros ddefnyddio ataliaeth<br>• ble a phryd y defnyddiwyd yr ataliaeth<br>• hyd yr ataliaeth<br>• yr effaith ar y plentyn, gan gynnwys unrhyw anafiadau, ac unrhyw risgiau i'w les corfforol neu feddyliol |

| | |
|---|---|
| | • nodweddion gwarchodedig y plentyn (gan gynnwys oedran, rhyw, anabledd – wedi'u rhannu yn ôl math o nam a hil)<br>• canlyniad unrhyw adolygiad o ddigwyddiad, gan gynnwys unrhyw gamau a fydd yn cael eu cymryd i osgoi neu leihau ataliaeth a risg niwed yn y dyfodol<br>• rhan y dysgwr yn yr adolygiad<br>• pryd y rhoddwyd gwybod i'r rhieni<br>• adolygiadau tueddiadau gan ystyried yr holl wybodaeth hon ar lefel darparwr cyfan |

# Atodiad 1: Arolygu diogelu mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir

## Agweddau ar ddiogelu o fewn y fframwaith

Mae gan bob lleoliad ddyletswyddau statudol i weithredu mewn ffordd sy'n cyfrif am yr angen i ddiogelu a hybu lles plant (gweler **Atodiad D** y **Llawlyfr Arweiniad ar gyfer arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau rheoleiddiedig nad ydynt yn ysgolion, sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser**).

Mae angen i'r trefniadau sydd ar waith gan leoliadau sicrhau:

- bod mesurau rhesymol yn cael eu cymryd i leihau risgiau niwed i les a diogelwch plant
- bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon am les a diogelwch plant

Yn ystod yr arolygiad, gall unrhyw aelod o'r tîm amlygu pryderon am les neu ddiogelwch plentyn/plant. Lle y bo'n briodol, bydd yr arolygydd arweiniol yn hysbysu'r lleoliad. Bydd arolygydd AGC yn cymryd y camau priodol yn unol â'r polisi sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan AGC. Hefyd, bydd arolygydd Estyn yn hysbysu swyddog diogelwch Estyn am y mater, yn unol â pholisi diogelu Estyn.

**Mae thema 3, 'Gofal a datblygu' yn bwrw golwg ar pa mor dda mae ymarferwyr yn diogelu plant, ac yn eu cadw'n ddiogel ac yn iach ar yr un pryd.**

Bydd arolygwyr yn llunio barn am y diwylliant diogelu cyffredinol yn y lleoliad. Bydd arolygwyr yn gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer diogelu a hybu lles plant a pha mor dda mae ymarferwyr yn eu gweithredu.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- y polisi amddiffyn plant, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer adnabod arwyddion o radicaleiddio ac eithafiaeth
- y trefniadau sydd gan arweinwyr i recriwtio staff yn ddiogel
- iechyd a diogelwch, gan gynnwys hylendid bwyd a'r ddarpariaeth ar gyfer rheoli heintiau
- diogelwch rhag tân
- y trefniadau ar gyfer diogelwch a diogeledd y safle
- rhoi meddyginiaeth yn ddiogel
- cefnogi plant â chyflyrau meddygol
- rhoi cymorth cyntaf
- diogelwch ar wibdeithiau ac ymweliadau
- diogelwch ar y rhyngrwyd
- bwlio
- rheoli ymddygiad plant, gan gynnwys polisïau ac arferion ar gyfer ymyrryd ac atal yn gorfforol
- polisïau a gweithdrefnau ar gyfer hybu ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys bwyta'n iach, yfed a gweithgareddau corfforol

**Amddiffyn plant**

Wrth ystyried effeithiolrwydd gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer amddiffyn plant, dylai arolygwyr werthuso addasrwydd polisi amddiffyn plant y lleoliad ac a yw ymarferwyr yn deall ac yn adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2020. Hefyd, dylent werthuso a yw ymarferwyr yn gwybod am bolisi amddiffyn plant y lleoliad ac yn ei weithredu'n gywir, ac yn gallu adnabod risgiau i blant. Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Thema 5**

Dylai Arolygwyr Thema 5 werthuso p'un a yw plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, glân a diogel gan nodi a yw risgiau diangen i blant cyn belled ag y bo modd wedi eu dileu. Dylai arolygwyr arfarnu i bar raddau mae cydbwysedd rhwng yr angen i hyrwyddo diogelwch plant a'u hamddiffyn rhag niwed, a'r angen i gefnogi plant i gymryd risgiau. Dylai arolygwyr arfarnu a yw 'r adeilad mewn cyflwr da, oes cyfleusterau addas ar gyfer staff ac a oes trefniadau priodol i gynnal sgyrsiau cyfrinachol a i storio cofnodion yn ddiogel.

NODYN: Bydd methiannau yn yr uchod yn dylanwadu ar y dyfarniad dros ddiogelu.

**Thema 6**

Hefyd, mae angen i arolygwyr werthuso pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu pan fyddant yn arolygu Thema 6, er enghraifft wrth ystyried pa mor dda y maent yn dilyn prosesau diogel, trylwyr ac amserol. Dylent werthuso pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn hybu arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch, gan gynnwys gweithredu prosesau recriwtio diogel, trylwyr ac amserol.

Dylai arweinwyr a rheolwyr lleoliad fod yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau statudol o ran diogelu a'r camau y maent yn eu cymryd i ddatblygu arfer dda y tu hwnt i'r isafswm statudol. Mae'r person cofrestredig neu'r unigolyn/unigolion cyfrifol yn atebol am sicrhau bod y lleoliad wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, a'i fod yn monitro cydymffurfiad y lleoliad â hyn. Cyfrifoldeb y person cofrestredig neu'r unigolyn/unigolion cyfrifol yw sicrhau bod gwiriadau recriwtio diogel yn cael eu cynnal yn unol â gofynion statudol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Atodiadau 1 a 2.

Dylai arolygwyr asesu'n ofalus pa mor dda y mae'r person cofrestredig neu'r unigolyn/unigolion cyfrifol yn monitro ac arfarnu pob agwedd ar ddiogelu. Os nad oes gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant, ac nid yw'n cymryd camau digonol i sicrhau cydymffurfio â'r rhain, bydd hyn yn dylanwadu ar y barnau sy'n cael eu llunio am ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad.

## Arweiniad ar gyfer arolygwyr wrth farnu effeithiolrwydd diogelu

### Tystiolaeth cyn-arolygiad

Bydd arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth. Cyn yr arolygiad, mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles, bydd arolygwyr Estyn ac AGC yn ystyried:

- trafodaethau gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol
- adroddiad yr awdurdod lleol ar y lleoliad
- yr adroddiad arolygu blaenorol
- polisïau'r lleoliad ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles, yn cynnwys y polisi amddiffyn plant
- ymatebion i'r holiaduron i rieni, yn enwedig y cwestiynau ynghylch anogaeth i blant i fod yn iach a gwneud ymarfer corff, bod yn ddiogel a chael y cymorth ychwanegol ar gyfer unrhyw anghenion penodol
- gwybodaeth ysgrifenedig gan rieni neu bartneriaid eraill
- unrhyw gŵynion neu bryderon gan y naill arolygiaeth neu'r llall.

Dylai arolygwyr roi ystyriaeth benodol i gyd-destun y lleoliad, yn cynnwys gwybodaeth am:

- nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant
- nifer y ffoaduriaid neu'r ceiswyr lloches
- nifer y plant y gofelir amdanynt
- gwaharddiadau plant.

Pan fydd tystiolaeth cyn yr arolygiad yn nodi materion posibl o ran diogelu neu arfer wael o ran rheoli gan y darparwr, dylai arolygwyr ofyn am arweiniad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol eu sector a swyddog diogelu o dîm y swyddogion diogelu arweiniol. Pan ystyrir bod angen adrodd ar fater, rhaid cymhwyso polisi diogelu Estyn.

### Gweithgarwch arolygu - Adrodd ar ddiogelu

**Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion**.

Dylai arolygwyr gyfeirio at y 'Llawlyfr Arweiniad ar gyfer arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau rheoleiddiedig nad ydynt yn ysgolion, sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser' wrth lunio barn am ba mor dda mae ymarferwyr yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn Thema 3.

Mae Atodiad E yn y ddogfen yn darparu gwybodaeth fanwl am bob agwedd ar ddiogelu y mae'n rhaid i arolygwyr eu hystyried wrth lunio barn. Rhaid i arolygwyr gynnwys sylw ar y trefniadau ar gyfer diogelu. Fel arfer: **'Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder'** NEU **'Nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac maent yn destun pryder'**. Os bydd unrhyw drefniadau diogelu yn rhoi rheswm i bryderu, ni ddylai arolygwyr ddefnyddio'r frawddeg gyntaf yn yr adroddiad, ond rhaid

iddynt ddatgan nad ydynt yn bodloni'r gofynion.  Dylai arolygwyr adrodd yn fanwl ynghylch unrhyw ddiffygion yn y trefniadau diogelu dim ond os nad ydynt yn effeithio ar ddiogelwch y staff a'r plant yn y lleoliad.

Hefyd, mae angen i arolygwyr werthuso pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu wrth arolygu Thema 6, er enghraifft wrth ystyried pa mor dda maent yn dilyn prosesau diogel, trylwyr ac amserol.  Fodd bynnag, rhaid i arolygwyr hefyd gynnwys unrhyw bryderon neu fethiant i fodloni gofynion diogelu wrth lunio barn ar gyfer diogelu yn Thema 3.

Yn yr achosion, rhaid i'r adroddiad gynnwys argymhelliad y dylai'r lleoliad fynd i'r afael â'r materion diogelu / lles a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Bydd arolygydd AGC hefyd yn barnu a oes diffyg cydymffurfio (gan gynnwys diogelu) ai peidio. Mewn achosion o'r fath, rhaid dilyn Polisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi AGC. Nid yw Estyn yn anfon 'llythyr lles' mwyach at leoliadau meithrin nas cynhelir nad ydynt yn bodloni'r gofynion diogelu angenrheidiol. Os bu methiant technegol neu unigol sydd heb ei unioni er boddhad yr arolygydd yn ystod yr arolygiad, bydd yr arolygydd yn cynnwys hyn yn adran y FfF Mewnbwn ar ddiffyg cydymffurfio.

Pan fydd materion yn **rhai mân** ac yn **hawdd eu hunioni**, a lle nad ystyrir eu bod yn bwysig, nid oes angen sylw a/neu argymhelliad yn yr adroddiad arolygu terfynol. Fodd bynnag, dylid cofnodi hyn yn y FfF arolygu, a'i roi fel adborth i'r arweinydd a'r person cofrestredig / person cyfrifol cyn gynted ag y bo modd.

## Atodiad 2: Arolygu diogelu mewn darpariaethau ôl-16 (gan gynnwys colegau arbenigol)

Mae gan bob darparwr ôl-16 ddyletswyddau statudol i weithredu mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae angen i'r trefniadau sydd gan ddarparwyr ar waith sicrhau bod:

- camau rhesymol yn cael eu cymryd i leihau risgiau niwed i les plant
- camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon am les plentyn neu blant, gan weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol cytûn mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill

Mae **diogelu a hyrwyddo lles plant** yn ymwneud â'r canlynol:

- amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, neu niwed
- atal amharu ar eu hiechyd neu ddatblygiad
- sicrhau eu bod yn cael gofal diogel ac effeithiol

Mae hyn er mwyn galluogi plant i gael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd.

**Deddfwriaeth ac arweiniad pwysig yn y maes hwn:**

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2023
- Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) 2015
- Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol
- Canllawiau i sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
- Cadw dysgwr yn ddiogel 2022
- Rheoli risg radicaleiddio yn eich lleoliad addysg 2023
- Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16 i 18 oed mewn addysg bellach
- Canllawiau dyletswydd Prevent: ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a Lloegr (2023)
- Gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar achosion o gamymddwyn ac anghymwystra yn y gweithlu addysg yng Nghymru (llyw.cymru) (2015)
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Lleihau arferion cyfyngol 2022
- Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau
- Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill
- Cymunedau dysgu diogel 2019 (dysgu yn y gwaith yn unig)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Arweiniad statudol a gyhoeddwyd o dan adran 29 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd
- Cod Ymarfer Iechyd a Diogelwch ar gyfer Darpariaeth dan Gontract Llywodraeth Cymru

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

Mae'n bwysig nodi y dylai darparwyr gyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau Cymru yn unig o fewn eu polisïau oni bai bod rheswm penodol i wneud fel arall. Er enghraifft, pan mae deddfwriaeth ledled y DU yn berthnasol, er enghraifft o ran dyletswydd Atal (Prevent).

## Diogelu oedolion bregus

Amlinellir y diffiniad o 'Oedolyn Bregus' yn adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

(1) Mae "oedolyn mewn perygl", at ddibenion y Rhan hon, yn oedolyn sydd —

(a) yn profi cam-drin neu esgeulustra, neu mewn perygl ohonynt
(b) ag anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio)
(c) o ganlyniad i'r anghenion hynny, ni all amddiffyn ei hun yn erbyn cam-drin neu esgeulustra, neu'r perygl ohonynt

Diffinnir "cam-drin" yn y cyd-destun hwn yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan fel "cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys cam-drin sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, p'un a yw hynny mewn annedd preifat, sefydliad neu unrhyw le arall."

Yn ei hanfod, mae gan bob oedolyn bregus yr hawl i gael ei amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustra, yr hawl i gael gofal priodol a chael cymorth i ofyn am help os bydd wedi cael ei gam-drin.

## Atal radicaleiddio ac eithafiaeth

O 1 Gorffennaf 2015, mae'n rhaid i ddarparwyr 'roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth'. Amlinellir hyn yn Adran 26 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r Canllaw dyletswydd Atal cysylltiedig o dan adran 29 y Ddeddf. Nod y ddeddfwriaeth hon yw atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

Mae dyletswydd Atal yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodol fel sefydliadau addysg, iechyd, awdurdodau lleol, yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol (carchardai a gwasanaethau prawf) helpu atal y risg y bydd pobl yn dod yn derfysgwyr neu'n cefnogi terfysgaeth. Mae'n cyd-fynd ochr yn ochr â dyletswyddau diogelu hirsefydledig ar bobl broffesiynol i amddiffyn pobl rhag amrywiaeth o niweidiau eraill, fel camddefnyddio sylweddau, rhan mewn gangiau, a chamfanteisio corfforol a rhywiol. Mae'r ddyletswydd yn helpu sicrhau bod pobl sy'n agored i radicaleiddio yn cael eu cefnogi fel y byddent o dan brosesau diogelu.

Bydd cyd-destun y darparwr yn effeithio ar y graddau y bydd angen i arolygwyr ystyried gwaith y darparwr yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob darparwr gydymffurfio â'r ddyletswydd, a dylai arolygwyr fodloni'u hunain fod y darparwr yn ymwybodol o'r ddyletswydd ac yn gweithredu'n briodol.

Dylai arweinwyr ddangos dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol a'r risg, y math mwyaf priodol o weithgarwch Atal iddynt gymryd rhan ynddo, a natur eu prif gyfrifoldebau a swyddogaethau. Dylai staff ddeall y gallai pa mor agored yw unigolyn i radicaleiddio fod yn gysylltiedig â'i fregusrwydd. Gall unigolyn fod yn fregus os oes agen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig arno oherwydd oedran, anabledd, risg o gam-drin neu esgeulustra.

**Mae disgwyliadau ar ddarparwyr yn cynnwys:**

- Cynnal partneriaethau priodol a gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol, e.e. gyda'r heddlu, arweinwyr Atal lleol ac awdurdodau lleol
- Rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth
- Penodi unigolyn dynodedig mewn swydd arwain sy'n gyfrifol am oruchwylio cyflawni Atal
- Sicrhau bod staff (a dysgwyr, lle bo'n briodol) yn deall risgiau radicaleiddio
- Meithrin a hyrwyddo galluoedd i ddelio â phryderon ynghylch radicaleiddio
- Hyrwyddo pwysigrwydd Atal a rôl pob un o'r staff mewn gwrthsefyll terfysgaeth
- Dangos eu bod yn deall ac yn rheoli risg ac yn rhannu gwybodaeth, yn ôl yr angen
- Cynnal asesiad risg (gallai fformatau fod yn wahanol ar draws sectorau, dylai arweinwyr sicrhau eu bod yn edrych ar yr arweiniad diweddaraf ar gyfer eu sector wrth ddatblygu hyn)
- Sicrhau bod staff wedi cael hyfforddiant priodol yn y maes hwn
- Lleihau amgylcheddau goddefgar
- Monitro a sicrhau hyfforddiant, asesiadau risg a phryderon ynghylch rheoli

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

Hefyd, dylai'r darparwr sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant priodol yn y maes hwn. Mae hyfforddiant ar-lein am ddim ar gael ar wefan llywodraeth y DU. Mae tair lefel o hyfforddiant ar gyfer ymwybyddiaeth, atgyfeiriadau neu banelau amlasiantaethol, yn dibynnu ar rôl pob aelod o staff.

Dylai darparwyr sicrhau bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg priodol ar waith yn y maes hwn i ddiogelu dysgwyr.

**Agweddau diogelu o fewn y fframwaith**

Bydd arolygwyr yn ystyried ymagwedd y darparwr at ddiogelu a'r graddau y mae hyn yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant o ddiogelwch a lles o fewn cymuned y darparwr, p'un a yw hynny ar y safle, oddi ar y safle neu ar-lein. Mae hyn yn cynnwys ystyried effeithiolrwydd gwerthusiad y darparwr ei hun o'i drefniadau diogelu.

Dylai arolygwyr ystyried prosesau cadw cofnodion y darparwr ar gyfer presenoldeb ac absenoldebau o ddarpariaeth (gallai hyn gynnwys absenoldebau am y diwrnod gwaith cyfan, neu ran ohono). Dylent ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn mynd i'r afael ag absenoliaeth barhaus, er enghraifft trwy bartneriaethau â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau ieuenctid, Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid neu'r heddlu.

Dylai'r tîm ganolbwyntio ar sut mae'r darparwr yn defnyddio gwybodaeth i fonitro a chefnogi lles a chynnydd dysgwyr.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae staff a llywodraethwyr / cyfarwyddwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu'r darparwr, er enghraifft yn y meysydd canlynol:

- cofnodi a rheoli achosion o fwlio
- amddiffyn plant
- recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel
- cymorth cyntaf
- lles dysgwyr â chyflyrau meddygol neu anghenion gofal personol
- lles dysgwyr ar leoliadau galwedigaethol
- diogelwch ar ymweliadau addysgol
- diogeledd ar y safle, lle bo'n briodol i natur y ddarpariaeth
- rheoli disgyblu dysgwyr, yn cynnwys ymyrraeth ac ataliaeth orfodol
- rheoli cludiant, yn cynnwys traffig ar safle'r darparwr, lle bo'n briodol
- hyfforddiant a dealltwriaeth staff o'r meysydd arfer pwysig hyn.

Dylai arolygwyr asesu'n ofalus nid yn unig p'un a yw'r dogfennau hyn yn bodoli, ond eu hansawdd, ac yn ei hanfod, pa mor dda y cânt eu deall a'u cymhwyso. Dylai'r polisïau hyn gwmpasu gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod gwaith (e.e. gweithgareddau cymunedol ar safle'r darparwr, ble cânt eu darparu).

**Yn ychwanegol, bydd arolygwyr yn ystyried agweddau eraill ar ddiogelu.**

Er enghraifft, y graddau y mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn saff, ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol yn y darparwr. Yma, bydd arolygwyr yn gwerthuso ac yn adrodd ar effaith trefniadau diogelu'r darparwr, ac ar les dysgwyr.

Bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth wrth wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol y darparwr. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn cefnogi medrau cymdeithasol ac emosiynol yr holl ddysgwyr, yn cynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Er enghraifft, dylai arolygwyr werthuso trefniadau'r darparwr ar gyfer addysgu dysgwyr am y canlynol:

- bwlio, yn cynnwys seiberfwlio
- diogelwch ar y rhyngrwyd
- aflonyddu a gwahaniaethu
- camddefnyddio cyffuriau a sylweddau
- addysg am ryw a pherthnasoedd iach
- atal radicaleiddio a chamfanteisio
- gwybodaeth a dealltwriaeth briodol dysgwyr o ymddygiadau sy'n emosiynol niweidiol neu'n anniogel, er enghraifft meithrin perthynas amhriodol ar-lein, camfanteisio'n rhywiol ar-lein ac eithafiaeth.

**Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn cefnogi diogelu**
Dylai arolygwyr werthuso'r flaenoriaeth y mae arweinwyr wedi'i rhoi i sicrhau bod pob aelod o staff yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r darparwr. Dylai arweinwyr a

rheolwyr darparwr fod yn glir am eu cyfrifoldebau statudol ynghylch diogelu, a'r camau y maent yn eu cymryd i ddatblygu arfer dda y tu hwnt i'r isafswm statudol. Dylai arolygwyr ystyried y flaenoriaeth y mae arweinwyr wedi'i rhoi i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall ac yn hyrwyddo gwaith diogelu'r darparwr.

Mae corff llywodraethol neu berchennog y darparwr (lle bo'n berthnasol) yn atebol am sicrhau bod gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a dylai fonitro cydymffurfiad y darparwr â hyn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwiriadau recriwtio diogel yn cael eu cynnal yn unol â gofynion statudol.

Dylai arolygwyr asesu'n ofalus pa mor dda y mae uwch reolwyr a llywodraethwyr / cyfarwyddwyr yn monitro ac yn gwerthuso pob un o'r agweddau ar gyfer diogelu, ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r darparwr. Os nad oes gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles dysgwyr, ac nid yw'n cymryd camau digonol i sicrhau y glynir at y rhain, bydd hyn yn dylanwadu ar y gwerthusiad a wneir am ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwr.

## Addysg gyda llety neu ddarpariaeth breswyl, neu addysg o fewn y sector cyfiawnder

Pan fydd llety ynghlwm â lleoliad addysg neu wedi'i gysylltu â lleoliad preswyl neu leoliad cyfiawnder, rhaid i arolygwyr gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu garchardai AEF (Arolygiaeth Carchardai EF) i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfrannu at anghenion lletywyr neu ddisgyblion preswyl o ran eu diogelwch.

Pan fydd llety ynghlwm â lleoliad addysg neu wedi'i gysylltu â lleoliad preswyl neu leoliad cyfiawnder, dylai'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn gwmpasu gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod gwaith.

## Tystiolaeth cyn-arolygiad

Bydd arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth. Cyn yr arolygiad, o ran diogelu a hyrwyddo lles, bydd yr Arolygydd Cofnodol (ACof) yn ystyried (nid ar gyfer arolygiadau neu ymweliadau dirybudd, er enghraifft y rhai yn y sector cyfiawnder, gweler Atodiad 10):

- gwerthusiad diweddaraf y darparwr o'i weithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant
- unrhyw archwiliad neu wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am berfformiad neu bolisïau'r darparwr
- yr adroddiad arolygu blaenorol, os oes un
- data ar agweddau ar ymddygiad, fel camau disgyblu; achosion difrifol a defnyddio ymyriadau corfforol
- polisïau'r darparwr ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles, yn cynnwys y polisi amddiffyn plant
- gwybodaeth ysgrifenedig gan rieni neu bartneriaid eraill
- unrhyw gŵynion y gallem fod wedi eu derbyn
- ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr, lle bo'n berthnasol
- ymatebion i'r holiaduron i staff a llywodraethwyr, lle bo'n berthnasol

Mae'n bwysig nad ydym yn rhannu sylwadau unigol o unrhyw holiadur â'r darparwr. Mae'r sylwadau o'r holiaduron i ddysgwyr yn yr ardal dogfennau arolygu a dylid eu cadw yn gyfrinachol i'r tîm. Caiff sylwadau o'r holiaduron i staff a llywodraethwyr eu cadw'n ddiogel yn yr ardal Arolygydd Cofnodol, a dylent aros yn gyfrinachol i'r Arolygydd Cofnodol.

**Pan fydd tystiolaeth cyn-arolygiad yn nodi materion diogelu posibl neu arfer reoli wael gan y darparwr, dylai arolygwyr ofyn am arweiniad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol eu sector a'r tîm diogelu. Pan ystyrir y gellir adrodd am fater, rhaid cymhwyso ein polisi diogelu.**

Dylai cyfrifoldeb am arolygu diogelu gael ei rannu gan bob aelod o'r tîm, ond yr Arolygydd Cofnodol sydd â chyfrifoldeb yn y pen draw. Gallai'r Arolygydd Cofnodol ddyrannu tasgau penodol i unrhyw aelod o'r tîm, yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid. Gallai gwahanol arolygwyr fod yn gyfrifol am wahanol agweddau ar ddiogelu a hyrwyddo lles gan eu bod yn digwydd ar draws y fframwaith arolygu. Fel ym mhob arolygiad, mae'r Arolygydd Cofnodol yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal yr arolygiad, ac mae angen iddo fonitro gwaith yr arolygydd / arolygwyr, gan arwain ar faterion yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles dysgwyr, yn enwedig y rhai ynghylch amddiffyn plant.

Bydd pob darparwr (heb gynnwys y rhai yn y sector cyfiawnder) yn cwblhau hunanwerthusiad cynhwysfawr o ran diogelu cyn arolygiad. Bydd hyn yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r materion y mae angen eu hystyried wrth werthuso polisi a gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer diogelu. Gallai fformat hwn fod yn wahanol ar draws sectorau, a dylai arweinwyr sicrhau eu bod yn edrych ar yr arweiniad diweddaraf ar gyfer eu sector wrth ddatblygu'r ddogfen hon.

Pan fydd mater diogelu wedi cael ei godi am y darparwr cyn arolygiad, bydd swyddog diogelu wedi amlygu'r darparwr gan ddefnyddio rhybudd diogelu. Bydd y Cydlynydd Arolygu yn rhoi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol bod y darparwr wedi'i amlygu a bydd yn gofyn iddynt gysylltu â'r swyddog diogelu i gael mwy o wybodaeth a chyngor. Gallai hyn gynnwys cwestiynau posibl a meysydd pellach i'w gwerthuso, yn gysylltiedig â'r materion diogelu a godwyd yn y rhybudd. Dylai Arolygwyr Cofnodol gynnwys sylw bras yn adran ddiogelu sail y dystiolaeth yn rhoi manylion am y camau a gymerwyd yn ystod yr arolygiad o ran y rhybudd diogelu.

Bydd angen i'r Arolygydd Cofnodol ystyried pa mor effeithiol y mae'r darparwr wedi gwerthuso'i weithdrefnau ei hun ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles. Bydd hyn yn helpu sefydlu'r graddau y caiff polisïau a gweithdrefnau diogelu eu gweithredu a'u monitro'n briodol. Os na fydd y darparwr yn lanlwytho gwerthusiad, dylai hyn achosi pryder ynghylch pa mor drylwyr y maent yn gwerthuso'u gweithdrefnau eu hunain, a pha mor dda y mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r darparwr. Yn sgil y gwerthusiad hwn, bydd angen i'r Arolygydd Cofnodol neilltuo amser i gasglu digon o dystiolaeth i gefnogi barnau'r tîm. Gallai hyn gynnwys gofyn cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â diogelu a hyrwyddo lles mewn cyfarfodydd gyda'r canlynol:

- uwch reolwyr neu'r pennaeth / Prif Weithredwr
- cynrychiolydd / cynrychiolwyr y corff llywodraethol / bwrdd y cyfarwyddwyr (lle bo'n berthnasol)

- staff
- dysgwyr

Hefyd, gallai arolygwyr drefnu cyfarfod â'r unigolyn dynodedig sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant os nad y pennaeth / yr uwch reolwr yw hwn.

## Gweithgarwch arolygu

Wrth arolygu darparwyr o ran diogelu, bydd arolygwyr yn gwerthuso'r canlynol:

- p'un a oes gan y darparwr hunanwerthusiad cyfoes sy'n ystyried effeithiolrwydd ei ddyletswyddau diogelu ac amddiffyn plant, yn cynnwys gweithgarwch ar-lein, a pha mor dda y mae'n amlinellu cryfderau a meysydd i'w gwella
- pa mor dda y mae'r darparwr yn gweithredu ac yn monitro ei bolisïau a'i weithdrefnau i wella'r modd y mae'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant yn unol â chanllawiau statudol
- p'un a yw'r darparwr yn adrodd yn rheolaidd i uwch reolwyr a llywodraethwyr / cyfarwyddwyr, a pha mor dda y mae'n defnyddio'i ddata a gwerthusiadau o ddiogelu am achosion o fewn ei ddarpariaeth, yn cynnwys agweddau a digwyddiadau diogelwch ar-lein
- p'un a yw holl aelodau staff darparwr yn glir ynghylch cyfrifoldebau a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i amddiffyn dysgwyr a bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant mewn amddiffyn a diogelu plant, yn cynnwys dyletswyddau 'Atal'
- p'un a yw'r holl gofnodion yn gysylltiedig â diogelu yn gyfoes, yn cynnwys achosion o fwlio honedig, amddiffyn plant, ymyrraeth gorfforol, atgyfeiriadau amddiffyn plant, recriwtio diogel a gwiriadau gan y GDG, a hyfforddiant diogelu
- p'un a oes ymagweddau cyson at reoli ac adrodd am ddigwyddiadau diogelu a materion rheoli ymddygiad o fewn y darparwr, a gefnogir gan bolisïau a gweithdrefnau clir, ac sy'n cynnwys rheoli achosion yn gysylltiedig â'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol
- p'un a oes trefniadau addas i weithredu ble mae patrwm presenoldeb unrhyw ddysgwr yn destun pryder, a ph'un a yw'r darparwr yn monitro ac yn gweithredu yn unol ag absenoldebau dysgwyr am y diwrnod gwaith cyfan, neu ran ohono
- pa mor dda y mae'r darparwr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o ymddygiadau sy'n emosiynol niweidiol neu'n anniogel, er enghraifft meithrin perthynas amhriodol ar-lein, aflonyddu, gwahaniaethu, bwlio yn gysylltiedig â rhagfarn ac eithafiaeth, yn unol â'u cyfnod datblygu
- p'un a oes trefniadau priodol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o sut i fod yn ddiogel, yn cynnwys diogelwch ar-lein, a pha rai sy'n cael eu cynnwys yn rheolaidd yng nghwricwlwm y darparwr

## Adrodd ar ddiogelu

IBydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw diwylliant diogelu'r darparwyr, p'un a yw trefniadau i gadw dysgwyr yn ddiogel yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Dylent ystyried p'un a yw'n briodol disgrifio natur unrhyw gryfderau neu ddiffygion yn yr adroddiad.

Pan nad yw trefniadau yn bodloni’r gofynion, dylai arolygwyr gynnwys argymhelliad i wella’r ddarpariaeth a bod y darparwr yn mynd i’r afael â’r materion diogelu / lles a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Dyma ddylai’r argymhelliad cyntaf fod yn yr adroddiad arolygu. Ar ôl yr arolygiad, efallai y byddwn yn rhoi llythyr ‘lles’ i’r darparwr i geisio sicrwydd eu bod yn mynd i’r afael â’r diffyg(ion) yn briodol.

| **Sector** | **Llythyrau lles yn berthnasol?** | **Pryderon i’w rhannu â’r canlynol** |
|---|---|---|
| **Colegau Addysg Bellach** | Ydyn | • Darparwr<br>• Ansawdd yn y sector ôl-16 Llywodraeth Cymru<br>• Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (o Awst 2024)<br>• Arweinydd y sector<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer y sector ac ar gyfer diogelu |
| **Colegau arbenigol annibynnol** | Ydyn | • Darparwr<br>• Cymorth AB Llywodraeth Cymru<br>• AGC (lle ceir darpariaeth breswyl gysylltiedig)<br>• Arweinydd y sector<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer y sector ac ar gyfer diogelu |
| **Cartrefi diogel i blant** | Ydyn | • Darparwr<br>• AGC<br>• Awdurdod lleol<br>• Arweinydd y sector<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer y sector ac ar gyfer diogelu |
| **Sector cyfiawnder** | Nac ydyn | • Darparwr<br>• Arolygiaeth Carchardai EF<br>• Arweinydd y sector<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer y sector ac ar gyfer diogelu |
| **Dysgu oedolion yn y gymuned** | Ydyn | • Darparwr<br>• Ansawdd yn y sector ôl-16 Llywodraeth Cymru<br>• Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (o Awst 2024)<br>• Arweinydd y sector<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer y sector ac ar gyfer diogelu |
| **Dysgu yn y gwaith** | Ydyn | • Darparwr<br>• Ansawdd yn y sector ôl-16 Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (o Awst 2024)<br>• Arweinydd y sector<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer y sector ac ar gyfer diogelu |

Pan fydd arolygwyr yn barnu bod trefniadau diogelu yn anghyflawn, yn aneffeithiol, neu nid ydynt yn cydymffurfio â gofynion statudol a/neu fod dysgwyr ddim yn ddiogel, mae'n bwysig fod y materion hyn yn cael eu cofnodi'n briodol yn sail y dystiolaeth a'u dwyn i sylw'r darparwr. Pan fyddai datgelu union natur y pryderon hyn yn creu risgiau ychwanegol i les dysgwyr, dylai arolygwyr gynnwys y datganiad canlynol yn yr adroddiad:

> 'Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.'

Pan fydd arolygwyr yn barnu na fyddai tynnu sylw at union natur pryder yn amlygu dysgwyr i risgiau ychwanegol, gall arolygwyr gyfeirio at y pryder yn eu prif werthusiad. Er enghraifft, pan fydd pryderon ynghylch rheoli traffig ar safle coleg, gall arolygwyr gyfeirio at hyn yn eu hadroddiad.

Pan fydd materion yn rhai **mân** a/neu'n rhai y gellir eu **cywiro'n hawdd**, ac nid ystyrir eu bod yn arwyddocaol, nid oes angen sylw nac argymhelliad yn yr adroddiad arolygu terfynol. O ganlyniad, ni ddylai'r Arolygydd Cofnodol roi llythyr lles i'r darparwr. Fodd bynnag, rhaid i'r Arolygydd Cofnodol sicrhau bod y pryderon yn cael eu codi, a chynlluniau i fynd i'r afael â nhw yn cael eu trafod gyda'r darparwr cyn gynted ag y bo modd.

Rhaid i'r Arolygydd Cofnodol sicrhau bod manylion am y pryderon yn cael eu cofnodi yn sail y dystiolaeth, yn cynnwys unrhyw gamau a gymerwyd gan y darparwr i fynd i'r afael â nhw.

**Arolygu diogelu mewn colegau annibynnol arbenigol: tystiolaeth i'w ystyried**

- Cofnodion hyfforddiant staff
- Cynlluniau datblygu unigol neu gyfwerth
- Cynlluniau codi a chario
- Cofnodion gwaharddiadau
- Arsylwi a thrafod
- Cofnodion ataliaeth
- Glynu at bolisi
- Defnyddio 'mannau tawel'

| **Tystiolaeth** | **Trywyddau ymholi posibl** |
|---|---|
| Cofnodion hyfforddiant staff | - A yw staff allweddol yn cael hyfforddiant rheolaidd a phriodol?<br>- A yw hyfforddiant yn cadw staff a dysgwyr yn ddiogel?<br>- A yw'r staff cywir yn cael eu hyfforddi?<br>- A yw hyfforddiant yn briodol ar gyfer oedran / cyfnod / anghenion meddygol dysgwyr? |
| CDUau | - A yw dysgwyr wedi eu heithrio'n feddygol rhag ataliaeth? A ddilynir hyn?<br>- A yw arferion cyfyngol yn rhwystro cynnydd yn erbyn amcanion CDU?<br>- A yw dysgwyr yn destun arferion cyfyngol sy'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, neu arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio arnyn nhw? |
| Arsylwi a thrafodaethau | - A oes ymateb cyson i ymddygiadau sy'n herio?<br>- A yw staff yn dilyn cynlluniau ymddygiad a chynlluniau trin a thrafod cadarnhaol?<br>- A yw'r cynlluniau hyn yn fuddiol?<br>- A oes gan y darparwr gysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr dysgwyr sy'n destun arferion cyfyngol sy'n helpu parhad yn y cartref? |
| Cofnodion ataliaeth | - A ydynt yn bodloni'r gofynion ym mholisi'r darparwr ei hun?<br>- A ydynt yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfoes?<br>- A oes proses ar gyfer goruchwylio'r cofnodion hyn?<br>- A yw arweinwyr yn gwirio mynychter ataliaeth a ph'un a oes unrhyw dueddiadau? Yn enwedig o ystyried nodweddion gwarchodedig.<br>- A gaiff achosion o ataliaeth eu holrhain ac a oes gwelliant mewn ymddygiad dros gyfnod? |
| Glynu at bolisi'r darparwr | - A yw staff yn ymwybodol o bolisïau yn y maes hwn?<br>- A gaiff polisïau eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn gyson? |
| Defnyddio 'mannau tawel' | - A yw'r rhain yn cael eu defnyddio fel ffordd o gosbi?<br>- A oes panelau gweld ar ddrysau? |
| Cymorth ar ôl digwyddiad | - Beth sydd ar waith ar gyfer staff? A dysgwyr?<br>- Pa mor effeithiol yw hyn? |

**Beth ddylai cofnodion ataliaeth darparwr ei gynnwys?**

Weithiau, cyfeirir at hwn fel y ‘llyfr rhwymedig’. Fodd bynnag, gallai darparwyr storio’r wybodaeth hon yn electronig neu mewn cofnodion papur.

| RHAID i ddarparwyr: | Arfer orau: |
|---|---|
| Ddilyn eu polisi eu hunain yn gywir. | Dylai’r cofnod gynnwys:<br>• y math o ataliaeth<br>• y rheswm / rhesymau dros ddefnyddio ataliaeth<br>• ble a phryd y defnyddiwyd yr ataliaeth<br>• hyd yr ataliaeth<br>• yr effaith ar y plentyn, gan gynnwys unrhyw anafiadau, ac unrhyw risgiau i’w les corfforol neu feddyliol<br>• nodweddion gwarchodedig y plentyn (gan gynnwys oedran, rhyw, anabledd – wedi’u rhannu yn ôl math o nam a hil)<br>• canlyniad unrhyw adolygiad o ddigwyddiad, gan gynnwys unrhyw gamau a fydd yn cael eu cymryd i osgoi neu leihau ataliaeth a risg niwed yn y dyfodol<br>• rhan y dysgwr yn yr adolygiad<br>• pryd y rhoddwyd gwybod i’r rhieni<br>• adolygiadau tueddiadau gan ystyried yr holl wybodaeth hon ar lefel darparwr cyfan |

## Atodiad 3: Arolygu yn y sector cyfiawnder

### Trefniadau arolygu Estyn

Mae trefniadau arolygu dysgu yn y sector cyfiawnder Estyn ar gyfer diogelu yn darparu ar gyfer arolygwyr i werthuso p'un a yw'r **lleoliad addysg** yn sicrhau bod:

- Dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn saff, ac yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol yn ystod eu haddysg, eu gwaith a'u gweithgareddau
- Dysgwyr yn gwybod sut gallant amddiffyn eu hunain rhag aflonyddu, gwahaniaethu ac eithafiaeth
- Athrawon yn helpu dysgwyr i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch
- Athrawon yn herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau dysgwyr
- Staff wedi rhoi systemau da ar waith i gofnodi a monitro ymddygiad dysgwyr

Cynhelir arolygiadau yn y sector cyfiawnder mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi neu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae eu fframweithiau priodol yn trefnu darpariaeth ar gyfer arolygu trefniadau diogelu.

Disgwyliadau Carchardai Dynion Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
Disgwyliadau Plant Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
Fframwaith arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasnaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, a gwasanaethau cymorth cartref AGC

**Trefniadau arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi**

Fframwaith Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn ymgorffori'r disgwyliadau canlynol:

**Ar gyfer oedolion:**

- Mae'r carchar yn darparu amgylchedd diogel a saff sy'n mynd ati i leihau risg o hunan-niwedio a hunanladdiad.
- Mae carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn cael gofal unigoledig gan dîm amlddisgyblaethol ac yn cael mynediad dirwystr at gymorth, yn cynnwys cymorth gan eu teuluoedd.
- Darperir amgylchedd diogel a saff ar gyfer carcharorion, yn enwedig oedolion sydd mewn perygl sy'n eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustra.
- Caiff oedolion sydd mewn perygl eu lleoli a'u cefnogi'n briodol gan staff hyfforddedig y darperir adnoddau ar eu cyfer i ddiwallu eu hanghenion.

**Ar gyfer plant:**

- Mae'r sefydliad yn hyrwyddo lles plant, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl, ac yn eu hamddiffyn rhag pob math o niwed ac esgeulustra.
- Mae'r sefydliad yn darparu amgylchedd diogel a saff sy'n lleihau risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Caiff plant sydd mewn perygl o hunan-niweidio a

hunanladdiad eu nodi'n gynnar a rhoddir y cymorth angenrheidiol iddynt. Mae pob un o'r staff yn ymwybodol o faterion bregusrwydd, ac yn effro iddynt, maent yn cael hyfforddiant priodol ac yn gallu manteisio ar offer a chymorth priodol.
- Cedwir plant yn ddiogel trwy roi sylw i faterion corfforol a gweithdrefnol, gan gynnwys gwybodaeth effeithiol am ddiogeledd a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a phlant.
- Mae plant yn byw mewn amgylchedd diogel, trefnus a chymhellol lle caiff eu hymddygiad da ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg a chyson.

**Trefniadau arolygu AGC**

Mae fframwaith AGC yn trefnu darpariaeth fanwl ar gyfer diogelu, y gellir dod o hyd iddi yn y ddolen uchod. Mae'r trywyddau ymholi perthnasol fel a ganlyn:

**Gofal a Chymorth**

- Y graddau y darperir i unigolion y gofal a'r cymorth o ansawdd da sydd eu hangen arnynt, trwy wasanaeth a gynlluniwyd trwy ymgynghori â'r unigolyn ac sy'n ystyried eu dymuniadau, eu dyheadau personol a deilliannau unrhyw risgiau ac anghenion arbenigol sy'n llywio'u hanghenion ar gyfer gofal a chymorth.
- Y graddau y mae darparwyr gwasanaeth wedi rhoi mecanweithiau ar waith i ddiogelu unigolion bregus y maent yn darparu gofal a chymorth iddynt.

**Arolygu trefniadau diogelu**

Gallai arolygwyr ddod ar draws tystiolaeth sy'n cyfrannu at dystiolaeth arolygu Estyn ac/neu Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi o drefniadau diogelu'r lleoliad. Pan fydd tystiolaeth yn ymwneud â fframwaith Estyn, bydd y wybodaeth hon yn ffurfio rhan o sail dystiolaeth Estyn ac yn llywio gwerthusiadau'r tîm o les dysgwyr a'u gofal, cymorth ac arweiniad. Os yw'r dystiolaeth arolygu yn ymwneud â lleoliad y carchar ehangach, neu'n ymwneud â diogelwch dysgwyr, bydd yr ACof yn rhannu'r dystiolaeth hon ag arolygydd arweiniol Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ac AGC iddynt ei hystyried ac atgyfeirio fel rhan o'u gweithgareddau arolygu. Pan wneir atgyfeiriad i reolwyr neu lywodraethwyr Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, AGC neu'r lleoliad, rhaid i'r ACof gofnodi'r atgyfeiriad a dyddiad yr atgyfeiriad yn sail y dystiolaeth.

**Cyn yr arolygiad**, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn ystyried:

- yr adroddiad arolygu blaenorol, os oes un
- unrhyw gŵynion y gallem fod wedi'u derbyn
- adroddiad hunanwerthuso'r darparwr ac adroddiadau i lywodraethwyr / uwch reolwyr, lle maent ar gael
- ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr, lle maent yn berthnasol
- ymatebion i'r holiaduron i staff a llywodraethwyr, lle maent yn berthnasol

Mae'n bwysig nad ydym yn rhannu sylwadau unigol o unrhyw holiadur gyda'r darparwr.

Wrth arolygu trefniadau diogelu **yn ystod arolygiad** o ran y lleoliad addysg, bydd

arolygwyr yn gwerthuso'r canlynol:

- p'un a yw'r darparwr yn adrodd yn rheolaidd i uwch reolwyr a llywodraethwyr / cyfarwyddwyr, a pha mor dda y mae'n defnyddio'i ddata a'i werthusiadau o ymddygiad dysgwr
- p'un a oes trefniadau addas i weithredu lle mae patrwm presenoldeb unrhyw ddysgwr yn peri pryder, a ph'un a yw'r darparwr yn monitro ac yn gweithredu ar absenoldebau dysgwyr am y diwrnod gwaith cyfan, neu ran ohono
- pa mor dda y mae'r darparwr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o ymddygiadau sy'n niweidiol yn emosiynol neu'n anniogel, er enghraifft rhagbaratoi, aflonyddu, gwahaniaethu, bwlio yn gysylltiedig â rhagfarn, ac eithafiaeth, yn unol â'u cyfnod datblygu
- pa mor dda y mae'r darparwr yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, i ddatblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch ac yn herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau dysgwyr

**Pryderon ynghylch diogelu**

Nid yw Estyn yn ymchwilio i achosion diogelu neu atgyfeiriadau unigol. Arolygiaeth Carchardai EF a Gwasanaeth Prawf Cymru, yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu sydd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Fodd bynnag, rhaid i arolygwyr ddilyn **y protocol hwn** i sicrhau bod yr holl honiadau neu amheuaeth o gam-drin neu esgeulustra yn cael eu hadrodd a'u hymchwilio gan yr awdurdodau priodol. Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu beth i'w wneud i alluogi Estyn a'i arolygiaethau partner i gyflawni eu dyletswyddau diogelu statudol.

Gellir gweld testun llawn Protocol Diogelu Oedolion a Phrotocol Diogelu Plant Arolygiaeth Carchardai EF yma:

Protocol Diogelu Oedolion

Protocol Diogelu Plant

Polisi Diogelu AGC

Gallai arolygwyr ddod ar draws pryderon ynghylch diogelu mewn sawl ffordd, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, honiad uniongyrchol gan ddysgwr neu honiadau rhai eraill yn y lleoliad. Efallai bydd y pryder yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd nawr neu wedi digwydd yn y gorffennol i ddysgwr yn y sefydliad yr ydym yn ei arolygu neu'r tu allan i'r sefydliad hwnnw.

Gallai'r pryderon fod ynglŷn ag ymddygiad

- Dysgwr neu garcharor arall yn y lleoliad
- Rhywun yn y gymuned
- Aelod o staff, gwirfoddolwr neu ddarparwr gwasanaeth o fewn y lleoliad
- Neu aelod o'r tîm arolygu (Estyn, Arolygiaeth Carchardai EF neu AGC)

Pan gaiff pryder ei godi, ni ddylai arolygwyr gynnal cyfrinachedd neu anhysbysrwydd o fewn y broses arolygu ynghylch gwybodaeth sy'n awgrymu unrhyw bryderon

ynghylch diogelu. Rhaid i unrhyw gais ysgrifenedig ddatgan hyn yn glir. Dylid esbonio i'r unigolyn mewn perygl y bydd atgyfeiriad diogelu'n cael ei wneud, gan sicrhau diogelwch uniongyrchol yr unigolyn ar yr un pryd.

Mae'n bwysig rhannu gwybodaeth yn brydlon fel y gellir darparu'r cymorth angenrheidiol a rhoi gweithdrefnau ar waith. Mae Adolygiadau Achosion Difrifol wedi dangos droeon sut mae rhannu gwybodaeth yn wael wedi cyfrannu at farwolaeth neu anafiadau difrifol. Dylid byth tybio bod gweithiwr proffesiynol arall neu asiantaeth arall wedi anfon gwybodaeth ymlaen a allai fod yn allweddol i gadw rhywun yn ddiogel.

Rhaid i arolygwyr roi gwybod i'r arolygydd cofnodol am unrhyw bryderon ynghylch diogelu, ar ôl cofnodi gwybodaeth sylfaenol. Dylai arolygwyr ond gwirio'r wybodaeth ofynnol sydd ei hangen. Rhaid i'r arolygydd cofnodol roi gwybod i'r canlynol:

- Llywodraethwr neu Reolwr y lleoliad, ac Arolygydd Arweiniol Arolygiaeth Carchardai EF / AGC a gofyn iddynt ddilyn eu polisi a'u protocol diogelu eu hunain.
- Tîm Diogelu Estyn gan ddefnyddio ein ffurflen atgyfeirio

Ym mhob achos, rhaid i arolygwyr fod yn gwbl fodlon fod y wybodaeth wedi cael ei rhannu'n briodol.

Rhaid i arolygwyr sy'n codi pryderon fod yn fodlon fod y sefydliad a'r arolygiaeth arweiniol yn rheoli'r pryder ynghylch diogelu yn effeithiol gan ddefnyddio'i brotocolau ei hun, o fewn graddfeydd amser priodol. Dylai hyn gynnwys gwneud yn siŵr fod camau priodol ac amserol wedi cael eu cymryd i amddiffyn a chynorthwyo'r plentyn neu'r oedolyn sydd mewn perygl, yn y tymor byr ac ar ôl hynny.

Rhaid i'r arolygydd cofnodol sicrhau bod yr holl wybodaeth, yr atgyfeiriad, y trafodaethau a'r deilliannau yn cael eu cofnodi mor gyfoes ag y bo modd.

**Pryderon ynghylch diogelu am arolygydd Estyn neu aelod o staff Arolygiaeth Carchardai EF / AGC**

Rhaid rhoi gwybod i'r arolygydd cofnodol ac arolygydd arweiniol yr arolygiaeth partner ar unwaith am unrhyw bryderon am ymddygiad neu weithredoedd aelod o dîm arolygu Estyn, oni bai bod y pryder ynglŷn â'r unigolyn hwn. Os felly, rhaid rhoi gwybod i Arweinydd Diogelu Dynodedig Arolygiaeth Carchardai EF / AGC. Os nad oes uwch reolwr ar gael, rhaid hysbysu'r Dirprwy Arweinydd Diogelu Dynodedig a Phennaeth Adnoddau Dynol Arolygiaeth Carchardai EF.

Rhaid i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ystyried a oes unigolyn mewn perygl o niwed (naill ai mewn lleoliad y mae Arolygiaeth Carchardai EF / AGC yn gweithio ynddo neu yn y gymuned, er enghraifft yng nghartref yr aelod staff). Os credir hyn, rhaid i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig gysylltu ag Adran Gwasanaethau Oedolion yr awdurdod lleol ar unwaith a chreu a gweithredu cynlluniau i hysbysu'r lleoliad, os yw'n berthnasol.

Ym mhob achos, ar ôl gwneud yr atgyfeiriad priodol, mae protocolau diogelu Estyn, Arolygiaeth Carchardai EF neu AGC yn gymwys.

## Gyda phwy i gysylltu

**Arweinydd Diogelu Ôl-16 Dynodedig Estyn**

Rachel Hackling

Rachel.Hackling@estyn.llyw.cymru

Arweinydd a swyddogion diogelu:

- Dyfrig.Ellis@estyn.llyw.cymru
- Andrea.davies@estyn.llyw.cymru
- Liz.Counsell@estyn.llyw.cymru
- Delyth.gray@estyn.llyw.cymru

**Ein prif swyddfa (yn ystod oriau swyddfa): 02920 446446**

**Arweinydd Diogelu Dynodedig Arolygiaeth Carchardai EF**

Angus Jones

Angus.Jones@HMIPrisons.gov.uk

07813122038

**Manylion AGC**

Olwen Davies

Olwen.Davies@llyw.cymru

Ffôn: 0300 7900 126